# Deall a Chynorthwyo gydag Ymddygiad sy'n Herio mewn Ysgolion Cynradd: Dull wedi'i Seilio ar Swyddogaethau

Ymchwil

Rhif y ddogfen ymchwil: 116/2025
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2025

**Deall a chynorthwyo gydag Ymddygiad sy'n Herio mewn Ysgolion Cynradd: Dull wedi'i Seilio ar Swyddogaethau**

| | |
|---|---|
| **Y Gynulleidfa** | Gwneuthurwyr polisi Llywodraeth Cymru; ymarferwyr sy'n gyfrifol am gefnogi plant gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol; awdurdodau lleol; consortia rhanbarthol; cyrff cenedlaethol a lleol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn hyrwyddo a chefnogi iechyd emosiynol/meddwl plant a phobl ifanc. |
| **Trosolwg** | Mae'r adroddiad hwn yn ystyried rôl dadansoddiad swyddogaethol mewn ysgolion cynradd a gynhelir, o ran deall ac ymateb i ymddygiad heriol dysgwyr. Gwnaeth gwyddonwyr ymddygiad asesiadau o ymddygiadau problemus a chyflwyno argymhellion cadarn i athrawon ar gyfer gwella canlyniadau dysgwyr.<br><br>Awduron: Hoerger, Marguerite[1], L; Blandford-Elliott, M[1]., Denise Foran Conn[1], a'r Athro J. Carl Hughes[1,2]<br>[1] Ysgol Addysg, Prifysgol Bangor<br>[2] Astudiaethau Addysg a Phlentyndod, Prifysgol Wrecsam |
| **Y camau gweithredu gofynnol** | Mae'r canfyddiadau a'r argymellion wedi eu pasio i Lywodraeth Cymru i dderbyn eu hystyriaeth. |
| **Gwybodaeth bellach** | Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Dr Maggie Hoerger<br>Ysgol Addysg<br>Prifysgol Bangor<br><br>@WG_Education<br><br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Gellir agor y ddogfen hon o wefan Llywodraeth Cymru yn https://hwb.gov.wales/dysgu-proffesiynol/arwain-dysgu-proffesiynol/ymchwil-ac-ymholi/y-strategaeth-genedlaethol-ar-gyfer-ymchwil-ac-ymholiad-addysgol/rhwydwaith-tystiolaeth-gydweithredol |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron 2025 ISBN Digidol 978-1-80633-693-7 WG53521

## Y Cynnwys


**Crynodeb Gweithredol ..... 5**

Adolygiad ..... 5

Nodau ac Amcanion ..... 5

Asesiad Swyddogaethol ..... 6

Methodoleg ..... 6

Cyfweliadau a Dadansoddiad ..... 6

Argymhellion ..... 6

**Geirfa ..... 9**

**1. Cyflwyniad ..... 11**

**2. Cefndir y SWPBS ..... 16**

Haen 1: Cynnig Ymddygiad Cyffredinol ..... 18

Haen 2: Cefnogaeth wedi'i Thargedu ..... 20

Casgliad ..... 23

**3. Amcanion a Dulliau Ymchwil ..... 25**

Amcanion Ymchwil ..... 25

Nodau ac Amcanion ..... 25

Cwestiynau Ymchwil ..... 25

Dulliau ..... 26

Cyfranogwyr ..... 26

Ysgolion ..... 26

Dysgwyr ..... 27

Athrawon ..... 29

Gweithdrefn ..... 29

Hyfforddiant Staff ..... 29

Darparodd yr arbenigwyr ymddygiad ..... 29

Asesiad Swyddogaethol ..... 30

Cyd-gynhyrchu Cynlluniau Ymddygiad i'r Unigolyn ..... 30

Casglu a Dadansoddi Data Ansoddol ..... 31

**5. Canfyddiadau ..... 33**

Asesiad Swyddogaethol a Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad ..... 33

Disgrifiadau o Ymyriadau ..... 34

Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag athrawon ..... 35

__Themâu ac is-themâu o gyfweliadau lled-strwythuredig ....35

**6. Cyfyngiadau ....41**

**7. Casgliadau ac argymhellion ....43**

Casgliadau ....43

Argymhellion ....43

**Cyfeiriadau ....45**

**Atodiad A. ....52**

**Atodiad B ....54**

**Atodiad C ....57**

# Crynodeb Gweithredol

## Adolygiad

Mae problemau ymddygiad mewn ysgolion yn achosi pryder cynyddol. Ceir tystiolaeth sylweddol i ddangos bod ymddygiad mewn ysgolion wedi dirywio ers y pandemig (yr Undeb Addysg Cenedlaethol, 2023). Mae athrawon yn sôn am gynnydd mewn ymddygiad aflonyddgar lefel isel a hefyd fwy o ymddygiadau peryglus sy'n cael effaith fawr. Mae adroddiadau gan staff ysgol, data am absenoldeb, a chyfraddau cynyddol o waharddiadau tymor sefydlog a pharhaol yn dangos darlun cenedlaethol sy'n rhoi rheswm i bryderu'n fawr (Llywodraeth Cymru, 2023; Llywodraeth Cymru, 2025b).

Mae'r ymddygiadau heriol hyn yn ymestyn adnoddau ac arbenigedd ysgolion. I ddarparu cymorth effeithiol a thosturiol wedi'i dargedu, mae angen i athrawon ac arweinwyr ysgol ddeall y rhesymau pam mae rhai dysgwyr yn arddangos ymddygiad heriol cyson. Mae corff sylweddol o dystiolaeth ryngwladol wedi dangos bod ysgolion sy'n cyflwyno'r dull Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS), gan gadw'n ffyddlon iawn at y dull, yn gweld gostyngiadau mewn ymddygiad problemus a chynnydd mewn llesiant ymysg dysgwyr a staff.

Mae SWPBS yn ddull haenedig, ysgol gyfan, o gefnogi a chreu diwylliannau ysgol cadarnhaol. Mae pob dysgwr yn elwa o gyflwyniad strategaethau rhagweithiol drwy'r ysgol gyfan sydd â'r nod o wella llesiant ac atal ymddygiadau heriol. Bydd canran fechan o ddysgwyr yn elwa o gymorth haen uwch hefyd, yn cynnwys ymyriadau ar sail swyddogaeth sydd wedi eu teilwra'n benodol. Mae asesiad swyddogaethol yn gydran graidd o SWPBS a gall helpu athrawon i ddeall pam bod rhai dysgwyr yn dangos ymddygiadau heriol, a darparu fframwaith ar gyfer ymyriad effeithiol a thosturiol.

## Nodau ac Amcanion

Nod y prosiect hwn oedd archwilio dichonoldeb ac effeithiolrwydd canfyddedig defnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) yn rhan o fframwaith SWPBS haenedig mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Dyma oedd yr amcanion penodol:

- Asesu a allai asesiad ymddygiad swyddogaethol helpu ysgolion i ddeall ac ymateb yn well i ymddygiad heriol cyson.
- Mynd ati ar y cyd gydag athrawon i gynhyrchu cynlluniau cymorth gydag ymddygiad i'r unigolyn, sydd wedi'i seilio ar swyddogaethau.
- Casglu safbwyntiau athrawon am y broses, y canlyniadau a gweithrediad ymyriadau sydd wedi eu seilio ar swyddogaethau.
- Archwilio rôl bosibl arbenigwyr ymddygiad i gefnogi staff ysgol i fabwysiadu arferion tosturiol sydd wedi'u hysbysu gan dystiolaeth.

## Asesiad Swyddogaethol

Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) yn erfyn a ddefnyddir i ddarganfod swyddogaeth neu ddiben gwaelodol ymddygiad heriol. Mae deall swyddogaeth ymddygiad yn ein helpu i ddeall y dysgwr yn well fel unigolyn a hysbysu ymyriad effeithiol. Mae'r asesiad yn cynnwys casglu gwybodaeth drwy arsylwi a chynnal cyfweliadau i adnabod y sbardunau a'r canlyniadau a allai fod yn cadw'r ymddygiad yn mynd. Yn y prosiect hwn, darparwyd hyfforddiant i athrawon gan arbenigwr ardystiedig mewn ymddygiad a hwnnw'n hyfforddiant mewn dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau sy'n cefnogi'r broses asesu.

Gwyliodd yr arbenigwr bob dysgwr yn yr ystafell ddosbarth a chynhaliodd gyfweliadau gyda'r athro dosbarth/athrawes ddosbarth a staff perthnasol yr ysgol. Gyda'i gilydd, datblygodd yr arbenigwr a'r athro/athrawes gynllun ymddygiad unigol oedd wedi ei lunio i gefnogi profiad mwy cadarnhaol yn yr ysgol ac i helpu'r dysgwr i ddatblygu'r sgiliau angenrheidiol ar gyfer llwyddiant hirdymor.

## Methodoleg

Defnyddiodd y prosiect gynllun dulliau cymysg. Gwnaeth yr arbenigwyr ymddygiad asesiadau swyddogaethol o naw dysgwr ar draws chwe ysgol gynradd yng Nghymru. Roedd yr asesiadau hyn wedi eu seilio ar arsylwadau yn yr ystafell ddosbarth a chyfweliadau â staff ac roedden nhw'n hysbysu'r gwaith o gyd-gynhyrchu cynlluniau cynorthwyo ag ymddygiad. I werthuso a yw'r dull hwn yn dderbyniol ac yn ddichonol, gwnaeth ymchwilydd annibynnol gyfweliadau lled-strwythuredig dilynol gydag athrawon oedd yn cymryd rhan. Defnyddiwyd dadansoddiad thematig i adnabod themâu allweddol yn ymwneud â gweithrediad, effaith a defnyddioldeb canfyddedig yr ymyriad.

## Cyfweliadau a Dadansoddiad

Dywedodd athrawon bod y broses asesu ymddygiad swyddogaethol wedi helpu ymhob un o'r naw achos i egluro swyddogaeth ymddygiad y dysgwr. Roedd hyn yn caniatáu iddynt ddatblygu cynlluniau ymddygiad wedi'u teilwra i anghenion y dysgwr a'r amgylchedd ysgol. Gallai athrawon roi'r cynlluniau hyn ar waith a soniodd yr athrawon hynny am welliannau mewn ymddygiad. Cytunodd y cyfranogwyr i gyd eu bod nhw a'r staff ysgol ehangach wedi elwa o'r broses, gan ddod yn fwy hyderus a gwybodus wrth ymateb i ymddygiad heriol. Soniodd athrawon fod ymddygiad dysgwyr wedi gwella a bod amgylcheddau ystafell ddosbarth wedi dod yn fwy cadarnhaol a haws eu rheoli.

## Argymhellion

Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth hon, ac yn unol â blaenoriaethau polisi cyfredol yng Nghymru, rydym yn gwneud yr argymhellion a ganlyn i gryfhau arferion, hysbysu ymchwil yn y dyfodol, a chefnogi gweithrediad dulliau wedi eu seilio ar swyddogaeth yn rhan o fodel haenedig o gynorthwyo ag ymddygiad.

1. **Arweiniad i'r proffesiwn addysgu**
   Ar sail yr adolygiad o dystiolaeth ryngwladol, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad cenedlaethol, buddsoddiad, a chymorth ymarferol i helpu ysgolion i ddatblygu ac ymwreiddio Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) fel fframwaith cyson, perthynol a chynhwysol ar draws yr haenau i gyd (cyffredinol, wedi targedu ac arbenigol).

2. **Gwerthuso a Chryfhau Cymorth (Haen 1) Cyffredinol**
   Ymchwilio gweithrediad y dull Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, yn cynnwys pa mor ffyddlon y cedwir ato, ei ymestyniad a'i effaith ganfyddedig. Archwilio sut mae cymorth cyffredinol yn rhyngweithio ag ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo cynaliadwyedd a newid diwylliannol drwy'r ysgol gyfan. Dylai ysgolion gael yr adnoddau i adnabod arwyddion cynnar o anhawster ymddygiadol ac ymateb gyda chymorth amserol wedi'i deilwra i'r cyd-destun. Mae'n arbennig o bwysig buddsoddi mewn lleoliadau cynradd a'r blynyddoedd cynnar, gyda phwyslais ar strategaethau rhagweithiol sy'n gostwng yr angen am wahardd.

3. **Ehangu Graddfa a Chyd-destunau'r Astudiaeth**
   Ymestyn ymchwil i ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion (PRU) er mwyn asesu perthnasedd dulliau sydd wedi eu seilio ar swyddogaeth, a'u gallu i addasu, ar draws camau datblygiadol a lleoliadau addysgol amrywiol. Dylid talu sylw arbennig i bwyntiau pontio a strwythurau sefydliadol gwahanol.

4. **Ymdrin ag Amrywiaeth Ehangach o Fathau o Ymddygiad**
   Archwilio pa mor effeithiol yw asesiadau swyddogaethol a chefnogi gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyniannau llai gweladwy o ymddygiad heriol, fel mewnoli symptomau (e.e. pryder, encilio) a datgyweddiad goddefol. Mae'n hawdd peidio sylwi ar yr ymddygiadau hyn ac eto maen nhw'n cael effaith sylweddol ar ddysgu a lles.

5. **Gwella Mesuriad drwy Ddulliau Hydredol a Meintiol**
   Dylai astudiaethau'r dyfodol gynnwys dulliau asesu wedi eu safoni, dulliau tracio ymddygiad systematig, a gwaith dilynol hydredol (e.e. 6–12 mis ar ôl yr ymyriad) i ddeall yn well beth yw effaith gyson y cymorth sydd wedi ei seilio ar swyddogaethau. Dylai ymchwil pellach archwilio'r pethau sy'n rhwystro ac yn hyrwyddo gweithrediad y SWPBS a dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau mewn cyd-destunau amrywiol yng Nghymru, yn cynnwys lleoliadau uwchradd ac arbenigol. Dylai'r meysydd sydd i gael eu gwerthuso gynnwys cyfraddau gwahardd, lles a chyflawniad academaidd.

6. **Hyrwyddo Ymgysylltiad â'r Teulu ac Asiantaethau Niferus**
   Cryfhau cyfranogaeth rhieni, gofalwyr a phobl broffesiynol allanol (e.e. seicolegwyr addysgol, gwasanaethau iechyd ac arbenigwyr ymddygiad) yn y gwaith o ddylunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau cynorthwyo ag ymddygiad. Gall y dull

cydweithredol hwn wella cysondeb, wella'r ddealltwriaeth o anghenion disgyblion ac ymwreiddio cymorth ar draws y systemau.

7. **Datblygu Gallu a Seilwaith Cenedlaethol**
   Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ysgol, yn cynnwys Cydlynwyr ADY ac arweinwyr uwch, er mwyn adeiladu hyder i weithredu ymatebion asesiadau swyddogaethol sydd wedi'u hysbysu gan dystiolaeth. Dylai awdurdodau lleol ystyried comisiynu neu hyfforddi arbenigwyr ymddygiad i ddarparu cyfraniad arbenigol ac i sicrhau y gweithredir yr ymatebion hyn yn ffyddlon ar draws ysgolion.

8. **Datblygu Gallu a Seilwaith Cenedlaethol**
   Dylai gweithrediad y dulliau sydd wedi eu seilio ar swyddogaethau gael eu cefnogi gan bobl broffesiynol hyfforddedig (e.e. arbenigwyr ardystiedig mewn ymddygiad), yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth neu risg uchel. Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu llwybrau ar gyfer rhoi mewnbwn arbenigol a sicrhau goruchwyliaeth er mwyn cadw cyfrinachedd a ffyddlondeb i'r dulliau wrth weithredu.

## Geirfa

AALI

Awdurdod Addysg Lleol – Corff llywodraethu rhanbarthol sy’n gyfrifol am wasanaethau addysg mewn ardal benodol.

ACEs

Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod yw cyfieithiad yr acronym ACE, a diffinir y profiadau hyn fel rhai trawmatig neu rai sy’n achosi straen sy’n digwydd yn ystod plentyndod ac sy’n gallu niweidio plentyn yn uniongyrchol neu effeithio ar yr amgylchedd lle maen nhw’n byw.

ADY

Anghenion Dysgu Ychwanegol – Yn cyfeirio at ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol i dderbyn addysg oherwydd anawsterau dysgu neu anableddau.

ALP

Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol yw cyfieithiad yr acronym Saesneg hwn – sef cymorth addysgol arbenigol a ddarperir i blant a phobl ifanc sydd ag ADY i’w helpu nhw i gyrchu’r cwricwlwm a chyrraedd eu llawn botensial.

BST

Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad – dull o gyfarwyddo ar sail tystiolaeth a ddefnyddir yn y dosbarth i ddysgu sgiliau newydd i ddysgwyr neu i addasu eu hymddygiad ar y pryd.

CDU

Mae Cynllun Datblygu Unigol yn gynllun statudol a gynhelir gan ysgol, uned cyfeirio disgyblion, sefydliad Addysg Bellach neu awdurdod lleol sy’n rhoi disgrifiad o ADY plentyn neu berson ifanc, y cynllun ALP sy’n ofynnol oherwydd eu hanhawster dysgu neu anabledd, a gwybodaeth gysylltiedig arall. Mae’r CDU yn disodli Cynlluniau Addysg Unigol (CAU) o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

CICO

Check-in/Check-out – system fentora ddyddiol lle mae’r dysgwr yn mynd at oedolyn allweddol ar ddechrau a diwedd y diwrnod i adolygu targedau ymddygiad a derbyn anogaeth ac adborth cadarnhaol.

FBA

Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol yn ddull strwythuredig wedi’i seilio ar dystiolaeth a ddefnyddir i gael gwell dealltwriaeth o’r ffactorau sy’n cyfrannu at ymddygiadau sy’n herio.

ODR

Atgyfeiriad Disgyblaeth Swyddfa – Mae hwn yn cyfeirio at gofnod ffurfiol o ddigwyddiadau’n ymwneud ag ymddygiad myfyriwr sy’n gofyn am ymyriad gan

weinyddwyr ysgol. Defnyddir hwn yn aml i olrhain patrymau a hysbysu strategaethau rheoli ymddygiad.

PBS

Mae Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol yn “fframwaith sy’n cynnwys nifer o gydrannau i ddatblygu dealltwriaeth o’r ymddygiad heriol a ddangosir gan unigolyn, ar sail asesiad o’r amgylchedd cymdeithasol a ffisegol a’r cyd-destun ehangach y mae’n digwydd oddi mewn iddo, ac ymgorffori cyfranogaeth a safbwyntiau rhanddeiliaid.” Gore et al. (2013).

PSA

Corff annibynnol yn y DU sy’n goruchwylio rheolwyr iechyd a gofal cymdeithasol i sicrhau eu bod nhw’n diogelu’r cyhoedd ac yn cynnal safonau uchel mewn gwaith rheoleiddio proffesiynol.

PRU

Uned Cyfeirio Disgyblion – Math o ysgol yn y DU i ddysgwyr sy’n methu mynychu ysgolion prif ffrwd neu arbenigol.

SEL

Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol – Sesiynau mewn grwpiau bychain i ddysgu disgyblion sut i reoli emosiynau, adeiladu cyfeillgarwch, datrys gwrthdaro, neu adnabod eu hymatebion eu hunain i straen.

SWPBS/PBIS/ SWPBIS

Mae Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy’r Ysgol Gyfan (SWPBS), a elwir hefyd yn Ymyriadau a Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (PBIS) neu Ymyriadau a Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy’r Ysgol Gyfan (SWPBIS) yn ddull haenedig o adeiladu amgylcheddau ysgol cadarnhaol i’r holl ddisgyblion a staff mewn cymuned ysgol.

TOCA-C

Arsylwad gan Athrawon o Addasiad yn y Dosbarth – Rhestr Wirio – Asesiad wedi ei raddio gan athrawon a ddefnyddir i werthuso addasiad cymdeithasol ac ymddygiadol myfyrwyr yn y dosbarth, gan helpu i adnabod y rhai sydd mewn perygl o gael anawsterau gyda’u hymddygiad.

UKBA(tyst)

Tystysgrif hyfforddi ôl-raddedig mewn dadansoddi ymddygiad, mae’r rhai sy’n dal UKBA(tyst) wedi bod trwy hyfforddiant trwyadl dan oruchwyliaeth, wedi cwblhau hyfforddiant ôl-raddedig mewn dadansoddi ymddygiad, ac wedi cytuno i god moeseg a threfn gwyno, ac ymgysylltu â datblygiad proffesiynol parhaus.

WSAEMW

Agwedd Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Meddyliol – Strategaeth ysgol gyfan sy’n integreiddio iechyd meddwl a lles emosiynol i’r cwricwlwm, i bolisïau ac i arferion dyddiol er mwyn creu amgylchedd dysgu cefnogol ar gyfer y dysgwyr i gyd.

# 1. Cyflwyniad

Yn adroddiad Llywodraeth Cymru Gwaharddiadau o Ysgolion a Gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022 dogfennwyd cynnydd mewn gwaharddiadau o bob math o ysgolion yng Nghymru ym mlwyddyn ysgol 2021/22. Fodd bynnag, mae'n rhaid dehongli'r ffigurau hyn yng nghyd-destun y pandemig COVID, pan oedd llawer o ysgolion ynghau neu'n gweithredu o dan gyfyngiadau sylweddol yn 2020/21. O ganlyniad, roedd y nifer a waharddwyd yn ystod y flwyddyn honno'n anarferol o isel.

Yn ystod 2020/21 cafwyd 13,024 o waharddiadau tymor sefydlog o 5 diwrnod neu lai (cyfradd o 27.4[1]) o'i gymharu â 23,897 (sef cyfradd o 50.6) yn 2021/2022. Gwelir tueddiadau tebyg ar gyfer gwaharddiadau tymor sefydlog o fwy na 5 diwrnod a gwaharddiadau parhaol. Yn ystod 2020/21 cafwyd 527 o waharddiadau tymor sefydlog o fwy na 5 diwrnod (cyfradd o 1.1) o'i gymharu â 935 (sef cyfradd o 2.0) yn 2021/22). Yn ystod 2020/21 cafwyd 131 o waharddiadau parhaol (cyfradd o 0.3) o'i gymharu â 305 yn 2021/22 (cyfradd o 0.6) (Llywodraeth Cymru, 2023).

Yn bwysig iawn, gwelwyd cynnydd cyson o flwyddyn i flwyddyn mewn gwaharddiadau tymor sefydlog o 5 diwrnod neu lai ers 2013/14, gan awgrymu bod y duedd o gynnydd mewn gwaharddiadau yn digwydd yn barod cyn y pandemig ac y gallai fod yn rhan o batrwm ehangach yn hytrach nag adwaith ar ôl-COVID yn unig (Llywodraeth Cymru, 2023).

Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodir dros wahardd o leoliadau cynradd ac uwchradd yw ymddygiad aflonyddgar cyson, cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn, ymosodiad corfforol ac ymosodiadau o fathau eraill yn erbyn disgybl (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae hefyd yn amlwg bod dysgwyr sy'n cymryd rhan mewn ymddygiadau heriol yn anhapus ac nad ydynt yn ffynnu yn yr amgylchedd ysgol. Yn fyd-eang, mae athrawon yn cyfeirio at *ymddygiadau lefel isel* fel un o'r agweddau o'u swydd sy'n achosi'r straen mwyaf iddynt (Agyapong et al., 2022).

Er bod y mwyafrif o ddysgwyr yn ymateb yn dda i strategaethau ymddygiad cadarnhaol, cyson drwy'r ysgol gyfan, mae canran fechan o ddysgwyr yn parhau i ddangos ymddygiadau sy'n herio. Gallai'r dysgwyr hyn gael eu labelu'n "anodd" neu'n "heriol" ac yn aml iawn mae ganddynt Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Fodd bynnag, mae'n dod yn gynyddol amlwg bod ffactorau cymdeithasol-economaidd hefyd yn chwarae rôl hanfodol yn ymddangosiad a pharhad ymddygiadau o'r fath. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er enghraifft, bron bedair gwaith mor debygol o wynebu gwaharddiad na'u cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2023), ac mae'r grŵp yma'n dangos cyfraddau presenoldeb a chyrhaeddiad is yn gyson (Llywodraeth Cymru, 2025). Mae tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg yn dangos hefyd bod dysgwyr sydd â nifer o nodweddion agored i niwed – fel bod ag ADY yn ogystal â bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim – mewn perygl arbennig o gael canlyniadau gwael, yn cynnwys gwaharddiad ysgol a dod yn rhan o'r system gofal

[1] Darperir y cyfraddau fesul 1,000 o ddisgyblion

cymdeithasol a chyfiawnder yn ddiweddarach (Comisiynydd Plant Cymru, 2020; Cogan et al. 2025). Unwaith y bydd ymddygiadau problemus wedi ymwreiddio, gallant fod yn anodd eu trin, gan arwain yn aml at fethiant lleoliad ac ymddieithrio hirdymor. Mae'n hanfodol cael ymyriad cynnar sydd wedi'i dargedu ac sydd wedi ei osod yn ei gyd-destun er mwyn lliniaru'r risgiau hyn a chefnogi gwell canlyniadau datblygiadol, addysgol a lles i ddysgwyr sydd dan risg (Biglan et al., 2012; Melvin et al., 2019).

Mae Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) yn fframwaith wedi'i seilio ar dystiolaeth sydd wedi'i lunio i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol a gwella lles ac ymgysylltiad ar draws cymunedau ysgol gyfan (Sugai a Horner, 2009). Cafodd SWPBS ei ddatblygu'n wreiddiol yn yr Unol Daleithiau, ac mae wedi cael ei weithredu'n eang mewn lleoliadau ysgol gynradd prif ffrwd, yn enwedig ar draws yr Unol Daleithiau. Yn y DU, fodd bynnag, mae profiad gyda Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (PBS) wedi canolbwyntio'n draddodiadol ar ymyriadau wedi'u targedu sy'n ymdrin ag ymddygiadau heriol disgyblion penodol, yn aml o fewn cyd-destunau ysgol arbennig (Jackson Brown et al., 2014; Paris et al., 2019). Yn fwy diweddar, mae'r fframwaith SWPBS wedi dechrau cael ei addasu ar gyfer defnydd ysgol gyfan ehangach mewn lleoliadau addysg prif ffrwd ac addysg arbennig. Mae astudiaeth gan Denne et al. (2023) yn amlinellu sut mae'r model wedi ei deilwra'n llwyddiannus i ysgolion arbennig y DU, gan bwysleisio ei rôl mewn gostwng y defnydd o ataliaeth a chreu amgylcheddau dysgu mwy cadarnhaol a chynhwysol. Mae enghreifftiau o achosion gan ysgolion yng Nghymru a Lloegr yn dangos potensial SWPBS i wella canlyniadau disgyblion, gwella hyder staff, a chryfhau diwylliant ysgol. Mae'n sefydlu continwwm haenedig o gymorth, gan ddechrau gyda chynnig ymddygiad cyffredinol sy'n cynnwys disgwyliadau wedi eu nodi'n glir, addysgu arferion rheolaidd a sgiliau cymdeithasol-emosiynol, ac anogaeth gyson, adeiladol i ymddwyn yn gadarnhaol. Mae SWPBS wedi ei wreiddio yn y ddealltwriaeth bod ymddygiad yn cael ei ddysgu ac yn ddibynol ar gyd-destun. Felly, mae'n blaenoriaethu strategaethau ataliol dros ymatebion cosbol ac yn hyrwyddo'r syniad bod ymddygiad cymdeithasol-fuddiol yn gyfres sgiliau y gellir ei meithrin a'i haddysgu. O fewn y model hwn, mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn mabwysiadu dull tosturiol a pherthynol, yn arbennig wrth gefnogi dysgwyr sy'n dangos ymddygiadau sy'n herio. O weithredu mewn ffordd sy'n ffyddlon i'r model, gwelwyd bod SWPBS yn gostwng ymddygiadau problemus, yn gwella hinsawdd yr ystafell ddosbarth ac yn gwella canlyniadau academaidd (Sørlie et al., 2018).

Mae SWPBS yn ymyriad a chanddo nifer o gydrannau. Nod y cynnig cyffredinol yw sefydlu diwylliant ymddygiad cadarnhaol, ataliol a chyson ar draws yr ysgol gyfan, gan ostwng y tebygolrwydd y bydd yr ymddygiadau mwyaf heriol yn ymddangos. Ond, i rai dysgwyr, efallai y bydd angen cymorth ychwanegol sy'n unigolyddol neu wedi'i dargedu. Mae'r dysgwyr hyn yn elwa o ddealltwriaeth ddyfnach o swyddogaeth eu hymddygiad, a hynny fel arfer drwy Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol (FBA). Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol yn broses strwythuredig sy'n archwilio diben ymddygiad – yr hyn y mae disgybl yn ceisio ei gyfathrebu neu ei gyflawni efallai – drwy ddeall y sbardunau, y canlyniadau a'r amodau amgylcheddol sy'n ei gynnal (O'Neill et al., 1997). Mae'r ddealltwriaeth hon yn caniatáu i staff lunio ymatebion mwy personol a thosturiol sy'n diwallu anghenion y dysgwr gan hefyd annog ymddygiad mwy cymdeithasol-fuddiol.

Gellir cael nifer o fathau gwahanol o ymyriadau sydd wedi eu seilio ar swyddogaeth, yn dibynnu ar yr anghenion a welwyd. Er enghraifft:

- Check-in/Check-out (CICO): System fentora ddyddiol lle mae'r dysgwr yn mynd at oedolyn allweddol ar ddechrau a diwedd y diwrnod i adolygu nodau ymddygiad a derbyn anogaeth ac adborth cadarnhaol.
- Strategaethau wedi eu hysbysu gan drawma: Addasiadau i arferion rheolaidd neu ryngweithiadau sy'n helpu i ostwng y pethau sy'n sbarduno ymddygiad afreolus, megis cynnig gofod tawel i reoleiddio'r emosiynau neu ddefnyddio sgriptiau cyd-reoleiddio wrth drawsnewid.
- Dysgu Cymdeithasol ac Emosiynol (SEL): Sesiynau mewn grwpiau bychan i ddysgu disgyblion sut i reoli emosiynau, adeiladu cyfeillgarwch, datrys gwrthdaro, neu adnabod eu hymatebion eu hunain i straen.
- Cefnogaeth academaidd: Gydag ymddygiadau sy'n cael eu cynnal gan ddianc neu osgoi, gallai ymyriadau gynnwys cymorth academaidd i ostwng rhwystredigaeth.

Mae'r ymyriadau hyn ar eu mwyaf effeithiol pan fyddant wedi eu hysbysu'n uniongyrchol gan y pethau a ddysgir o asesiadau ymddygiad swyddogaethol ac maen nhw wedi eu hintegreiddio i agwedd haenedig ysgol tuag at gymorth gydag ymddygiad. Mae canllawiau NICE yn argymell dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau mewn cyd-destunau addysgol ac iechyd i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n dangos ymddygiadau sy'n herio (NICE, 2015). Mae ymchwil rhyngwladol yn dangos yn gyson bod ymyriadau sydd wedi'u llunio gan ddefnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol yn fwy tebygol o ostwng ymddygiadau heriol a hyrwyddo opsiynau cadarnhaol eraill na strategaethau generig neu adweithiol (Ingram, Lewis-Palmer, a Sugai, 2005; Newcomer a Lewis, 2004).

Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) yn ddull strwythuredig wedi ei seilio ar dystiolaeth a ddefnyddir i gael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at ymddygiadau sy'n herio. Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol yn gallu datblygu dealltwriaeth o'r materion sy'n gysylltiedig ag ymddygiad problemus. Targedau asesiad ymddygiad swyddogaethol yw darparu disgrifiad clir o'r ymddygiadau problemus, nodi'r sbardunau fel amser, pobl neu wersi sy'n rhagweld yr ymddygiad, a labelu'r canlyniadau sy'n cynnal yr ymddygiad. Gellir cynhyrchu damcaniaeth ynglŷn â phryd a pham y mae'r ymddygiadau'n digwydd. Yn hytrach na chanolbwyntio'n llwyr ar yr ymddygiad ei hun, mae proses yr asesiad ymddygiad swyddogaethol yn ceisio dadorchuddio'r diben neu'r 'swyddogaeth' gwaelodol y mae'r ymddygiad yn ei gyflawni i'r dysgwr.

Trwy gyfuniad o arsylwi strwythuredig, trafodaethau gyda staff, a lle bo'n briodol, ymgynghoriad â'r dysgwr a'u teulu, mae'r asesiad yn casglu gwybodaeth am y cyd-destun lle mae'r ymddygiad yn digwydd. Mae hyn yn cynnwys adnabod patrymau, fel amseroedd yn y dydd, meysydd astudio, neu ddynameg cymdeithasol penodol a allai weithredu fel sbardunau, yn ogystal â'r canlyniadau sy'n dilyn yr ymddygiad a allai fod yn wobrwyol.

Mae'r broses hon yn arwain at ddatblygu damcaniaeth glir y gellir ei phrofi ynglŷn â phryd, lle a pham y mae'r ymddygiad yn digwydd.

Mae data'n cael eu casglu ar gyfer asesiad ymddygiad swyddogaethol o arsylwi'r dysgwr, siarad â'r dysgwr, eu teuluoedd a'u hathrawon, ac weithiau drefnu'r amgylchedd i ddarganfod yn union pryd mae'r ymddygiadau'n digwydd a phryd dydyn nhw ddim yn digwydd. Bydd yr asesiad swyddogaethol yn darparu gwybodaeth ar gyfer llunio'r cymorth gydag ymddygiad sy'n cynnwys strategaethau addysgu i alluogi i'r dysgwr adnabod ei anghenion a'i strategaethau ei hun er mwyn datblygu atebion annibynnol. Un o nodau'r ymyriad fydd sicrhau nad oes angen i'r dysgwr ymgysylltu yn yr ymddygiad problemus am fod rhywun wedi dysgu dulliau amgen iddynt o reoleiddio a rheoli eu hamgylchedd ac am fod staff yr ysgol yn sensitif i anghenion unigryw'r dysgwr.

Mae corff sylweddol a chynyddol o dystiolaeth ryngwladol yn cefnogi defnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA), a chynllunio ymyriad wedi ei seilio ar swyddogaeth, mewn lleoliadau addysgol. Mae ymchwil yn dangos yn gyson bod cynlluniau cymorth ag ymddygiad a ddatblygir ar sail asesiad ymddygiad swyddogaethol a weithredwyd yn dda, yn fwy effeithiol am ostwng ymddygiadau heriol a chynyddu ymgysylltiad cymdeithasol-fuddiol na dulliau generig neu amhenodol (Scott et al., 2005; Gage et al., 2017). Mae hyn yn cynnwys canlyniadau gwell i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, cyfraddau is o waharddiadau, a gwell hyder ymysg y staff i ymateb i ymddygiad.

Fodd bynnag, mae'n hanfodol bod yr asesiad ymddygiad swyddogaethol yn un o ansawdd da a'i fod yn ffyddlon yn ei weithrediad. Mae astudiaethau wedi dangos bod asesiadau a luniwyd yn wael neu a weithredwyd yn anghyson yn methu â chynhyrchu newid ystyrlon yn aml iawn ac y gallant hyd yn oed danseilio hyder y staff mewn dulliau o gefnogi ymddygiad (Hanley, 2012; Blood a Neel, 2007). Am y rheswm hwn, dylid tanategu darpariaeth yr asesiad ymddygiad swyddogaethol gyda hyfforddiant o safon uchel a goruchwyliaeth broffesiynol. Mewn achosion sy'n cynnwys ymddygiad cymhleth neu risg uchel cyson, efallai y bydd angen i arbenigwr ymddygiad ardystiedig wneud yr asesiad a chefnogi'r gwaith o lunio cynllun ymyriad priodol. Yn y DU, mae dadansoddwyr ymddygiad sy'n gofrestredig fel UKBA (tyst) gyda Chymdeithas Dadansoddi Ymddygiad y DU (UKSBA) wedi eu hyfforddi i lefel ôl-raddedig, maen nhw wedi cwblhau ymarfer dan oruchwyliaeth, ac maen nhw wedi eu cynnwys ar gofrestr Awdurdod Safonau Proffesiynol (PSA). Mae'r ymarferwyr hyn yn fedrus mewn gweithio ar y cyd gydag addysgwyr, teuluoedd, a thimau amlasiantaeth i ddatblygu cynlluniau unigol, sensitif i gyd-destun, sy'n gostwng y rhwystrau i ddysgu ac yn hybu cynhwysiant a lles tymor hirach.

Mewn ysgolion cynradd, mae ymddygiadau sy'n herio yn aml yn ymddangos fel aflonyddu cyson, anawsterau gyda rheoliad yr emosiynau, neu ymddygiad enciliol ac osgoi. Gallai'r rhain gael eu tanategu gan ffactorau datblygiadol, anghenion iaith a lleferydd, neu adfyd cynnar, ac maen nhw wedi eu cysylltu'n aml â rhwystrau i ddysgu, yn enwedig yng nghyd-destun anghenion llythrennedd a chyfathrebu sydd heb eu diwallu. Mae ymchwil diweddar yng Nghymru wedi dangos y gallai plant oed cynradd ddechrau ymddieithrio o ddysgu yn gynnar yn eu haddysg, yn arbennig pan maen nhw'n wynebu llawer o nodweddion agored i

niwed fel anfanteision cymdeithasol-economaidd ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY) (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae'r cyd-destun ysgol gynradd yn cynnig ffenestr hanfodol bwysig ar gyfer ymyriad cynnar, lle mae ymwreiddio fframweithiau ataliol ysgol gyfan ochr yn ochr â chymorth wedi'i deilwra yn gallu lliniaru risgiau a hyrwyddo lles, synnwyr o berthyn a chynhwysiant o'r camau cynharaf yn addysg y plentyn.

## 2. Cefndir y SWPBS

Mae'r adran nesaf yn rhoi trosolwg o'r dull SWPBS.

### Dulliau Cynorthwyo Cyffredinol gyda Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan

Mae'r dull Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) yn fframwaith i greu amgylchedd ysgol cadarnhaol a chefnogol. Mae pobl yn cyfeirio at SWPBS hefyd fel Ymyriadau a Chefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol (PBIS) (Sugai a Horner, 2009). Tybiaeth SWPBW yw hyn: os bydd arweinwyr ysgol yn creu amgylchedd cadarnhaol lle mae ymddygiadau cymdeithasol-fuddiol yn cael eu dysgu, eu modelu a'u gwobrwyo'n rheolaidd, bydd y rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn mewn ffordd gymdeithasol-fuddiol. Mae'r dull hwn yn ystyried ymddygiad drwy lens dosturiol: os bydd dysgwr yn camymddwyn yn rheolaidd er bod diwylliant ymddygiad cadarnhaol wedi ei gyflwyno; mae'n debygol bod ganddynt anghenion heb eu diwallu ac y byddent yn elwa o ddealltwriaeth a dull o wella ymddygiad sydd wedi'i seilio ar sgiliau. Mae SWPBS yn ddull sy'n pwysleisio atal yn hytrach na chosbi er mwyn hyrwyddo ymddygiad a diwylliant ysgol cadarnhaol.

Mae tystiolaeth gymhellgar i ddangos bod Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan yn gwella ymddygiad, yn gostwng cyfnodau o drais a phroblemau ymddygiad mewn ysgolion (Estrapala, Rila a Bruhn, 2021; Scott, Gagon a Nelson, 2008) ac yn atal datblygu ymddygiad aflonyddgar difrifol mewn dysgwyr dan risg (Sørlie et al., 2018). Mae ysgolion sydd wedi gweithredu SWPBS wedi sôn hefyd am ostyngiadau mewn gwaharddiadau (Curtis et al., 2010; Gage et al., 2020). Ymhellach, dangoswyd bod SWPBS wedi gwella cyflawniad academaidd a hinsawdd yr ysgol yn ogystal â gostwng y ffactorau sy'n rhoi pobl ifanc dan risg o ymddygiadau treisgar (Metzler et al., 2001). Mae hinsawdd ysgol yn cyfeirio at naws ac ansawdd cyffredinol bywyd yr ysgol, sy'n cwmpasu cysylltiadau ymysg staff a disgyblion, teimladau o ddiogelwch a pherthyn, a chysondeb a thegwch ymatebion a disgwyliadau ymddygiadol. Pan mae SWPBS yn cael ei weithredu'n ffyddlon, mae'n meithrin amgylchedd mwy rhagweladwy a chynhwysol sy'n dangos parch lle mae disgyblion yn teimlo wedi eu gwerthfawrogi a'u cefnogi – cyflyrau y gwyddys eu bod yn hyrwyddo ymgysylltiad, lles a dysgu i bawb.

Mae mabwysiadu fframwaith Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) yn peri goblygiadau pwysig i bolisïau ymddygiad ysgol ac i'r ffordd yr eir ati i wneud penderfyniadau am wahardd. Mae'r fframwaith yn annog symudiad oddi wrth fodelau adweithiol neu gosbol tuag at ddull cyfarwyddol ac ataliol lle mae ymddygiad wedi ei addysgu'n eglur, ei atgyfnerthu a'i gefnogi. Felly, mae polisïau ymddygiad sydd wedi'u halinio â SWPBS yn tueddu i bwysleisio strategaethau perthynol, adferol ac adeiladu sgiliau yn hytrach na dibynnu'n drwm ar sancsiynau. Er bod gwahardd yn dal i gael ei ddefnyddio fel opsiwn olaf mewn achosion o risg neu niwed difrifol, mae SWPBS yn rhoi dulliau strwythuredig i ysgolion i ymyrryd yn gynharach ac yn fwy effeithiol. Mae hyn yn gostwng y tebygolrwydd y bydd disgybl yn cael gwaharddiad, drwy roi cymorth wedi'i dargedu a

chynlluniau wedi'u seilio ar swyddogaethau. Mae hyn yn cyfateb ag amcanion y polisi cenedlaethol i wella cynhwysiant, gostwng anghydraddoldeb a hyrwyddo canlyniadau cyfartal i'r dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf (Llywodraeth Cymru, 2023).

Dyma nodweddion diffiniol SWPBS:

1. Agwedd ragweithiol: Mae SWPBS yn ddull rhagweithiol sy'n ceisio atal ymddygiadau problemus cyn iddyn nhw ddigwydd. Mae'n cynnwys gosod disgwyliadau clir ar gyfer ymddygiad a dysgu sgiliau personol ac emosiynol i ddysgwyr sydd eu hangen arnyn nhw i gyflawni'r disgwyliadau hynny.

2. Cynnig Ymddygiad Cyffredinol: Mae SWPBS yn cael ei lunio a'i weithredu drwy'r ysgol gyfan. Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn gosod disgwyliadau ymddygiad clir sydd wedi eu nodi'n gadarnhaol. Mae ymddygiadau cadarnhaol yn cael eu haddysgu a'u modelu hyd nes y byddant yn dod yn rhan arferol o'r diwylliant ysgol. Yn ddelfrydol, mae pob dysgwr, staff a gweinyddwr yn cymryd rhan yn y gwaith o greu a chynnal amgylchedd cadarnhaol, cyson a chefnogol. Pan fydd y dulliau cefnogi ysgol-gyfan yn cael eu gweithredu'n llawn, bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn ffynnu yn yr amgylchedd ysgol.

3. Ymyriadau haenedig: Mae SWPBS yn defnyddio system haenedig o gymorth. Er y bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn ymateb yn dda iawn i gefnogaeth ar draws yr ysgol gyfan, bydd lleiafrif o ddysgwyr a fydd angen gwell dealltwriaeth a gwell dull o gynorthwyo sydd wedi'i deilwra'n benodol iddyn nhw.

4. I'r dysgwyr hyn, gall asesiad ymddygiadol swyddogaethol helpu athrawon i ddeall yr ymddygiad a datblygu ymyriadau cymorth effeithiol a thosturiol. Mae athrawon yn cydweithio ag arbenigwyr ymddygiad er mwyn dod i ddeall yr ymddygiad a datblygu cynlluniau wedi'u teilwra.

5. Dull cydweithredol: mae SWPBS yn agwedd gydweithredol sy'n cynnwys y gymuned ysgol gyfan, yn cynnwys dysgwyr, teuluoedd ac aelodau'r gymuned. Mae'n pwysleisio cyfathrebu a chydweithredu rhwng y rhanddeiliaid i gyd.

6. Canlyniadau cadarnhaol: Mae SWPBS yn pwysleisio'r defnydd o ganlyniadau positif i annog ymddygiad cadarnhaol. Mae hyn yn cynnwys sylwi a rhoi cydnabyddiaeth i ddysgwyr am gyflawni disgwyliadau, yn hytrach na dim ond canolbwyntio ar ganlyniadau cosbol am ymddygiad negyddol. Er nad yw ymddygiad anniogel neu beryglus yn cael ei oddef, mae'r pwyslais bob amser ar greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol.

7. Sancsiynau teg: Derbynnir bod sancsiynau weithiau'n angenrheidiol i atal ymddygiad heriol ac yn arwydd i'r gymuned ysgol nad yw ymddygiadau peryglus ac ymosodgar yn dderbyniol. Fodd bynnag, os defnyddir sancsiwn dro ar ôl tro gyda'r un dysgwr, mae'r staff ysgol yn cydnabod nad yw'r sancsiwn yn effeithiol o ran newid ymddygiad

ac y gallai fod yn niweidiol i berthynas y dysgwr gyda'r staff. Bydd angen i'r dysgwr ddefnyddio dull wedi'i deilwra'n arbennig.

8. Mae pob lefel o ymyriad yn canolbwyntio ar addysgu a dysgu, trin y sefyllfa o flaen llaw, atgyfnerthu, penderfyniadau wedi eu seilio ar ddata, ac arferion wedi eu seilio ar dystiolaeth (Eber et al., 2008; George, Kincaid a Pollard-Sage, 2008; Hawken et al., 2008).

Yn gyffredinol, mae SWPBS yn ddull cynhwysfawr o greu amgylchedd ysgol cadarnhaol a chefnogol sy'n pwysleisio penderfyniadau rhagweithiol ac ataliol wedi eu seilio ar dystiolaeth, cydweithio, ac anogaeth gadarnhaol.

## Haen 1: Cynnig Ymddygiad Cyffredinol

Gall SWPBS ymddangos ychydig yn wahanol ymhob ysgol am ei bod yn system unigolyddol sydd wedi'i theilwra i boblogaeth, diwylliant ac anghenion unigryw pob ysgol. Mae rhai elfennau craidd y mae'n rhaid eu cael ymhob ysgol er mwyn i SPWBS lwyddo. Mae'r rhain yn cynnwys: (a) tîm arweiniad neu bwyllgor SWPBS, (b) athroniaeth ysgol yn llywio'r cyfan sy'n cynnwys 3-5 o werthoedd wedi eu cytuno a'u nodi'n syml, (c) disgwyliadau penodol i bob ardal o'r ysgol sy'n cynnwys ymddygiadau y gellir eu harsylwi, wedi eu nodi mewn ffordd gadarnhaol, (d) system o gydnabyddiaeth i wobrwyo dysgwyr sy'n dilyn y rheolau, (e) strategaethau penodol a chyson i ddysgwyr sydd angen mwy o gefnogaeth, a (f) systemau casglu data a gwerthuso ar gyfer datrys problemau (George, Kincaid a Pollard-Sage, 2008; Turnbull et al. 2002).

Yn gyntaf, mae angen i ysgolion a phwyllgorau benderfynu'n ffurfiol ar werthoedd a rheolau eu hysgol. Mae ysgolion yn penderfynu beth sy'n bwysig iddyn nhw, ac yn dyfeisio 3 i 5 o werthoedd wedi eu nodi'n syml ac mewn ffordd gadarnhaol (Burke et al., 2012). Unwaith y bydd y gwerthoedd wedi eu sefydlu, cânt eu diffinio ymhellach fel ymddygiadau neu reolau penodol mewn gwahanol amgylchiadau o amgylch yr ysgol. Os mai'r rheol yw parchu pobl eraill drwy dacluso ar eich ôl yn y ffreutur, dysgir y rheol hon yn eglur i'r dysgwyr gan roi adborth iddynt i'w cywiro (Horner, Sugai ac Anderson, 2010). Ysgrifennir y gwerthoedd a'r rheolau mewn matrics ymddygiad ysgol gyfan sy'n cael ei bostio'n gyhoeddus (Kelm, McIntosh a Cooley, 2014)

Mae'r elfen hon o'r dull SWPBS yn alinio'n dda â'r gofynion yng Nghymru. Mae gofyn i ysgolion sefydlu a gwneud adolygiad rheolaidd o bolisi ymddygiad ysgrifenedig sy'n hyrwyddo ymddygiad da, yn cefnogi lles y dysgwr, ac yn meithrin amgylchedd ysgol cynhwysol. Mae'r ddyletswydd hon wedi ei hamlinellu yn arweiniad Llywodraeth Cymru – Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (Llywodraeth Cymru, 2016), sy'n nodi bod yn rhaid i gyrff llywodraethu ddarparu datganiad ysgrifenedig o egwyddorion i dywys y pennaeth wrth iddo/iddi ddatblygu polisïau ymddygiad a phresenoldeb yr ysgol. Mae Adran 4.1 o'r arweiniad yn pwysleisio y dylai'r polisïau hyn esbonio'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran ymddygiad, dylent fod yn gyson berthnasol ar draws yr ysgol, a dylent alinio ag agweddau ysgol-gyfan tuag at gynhwysiant a lles emosiynol.

Mewn fframwaith Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS), gweithredir y gofyniad statudol hwn drwy gyd-ddatblygu tri i bump o werthoedd ysgol wedi eu nodi'n syml ac yn gadarnhaol sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r gymuned ysgol. Yna mae'r gwerthoedd hyn yn cael eu diffinio fel ymddygiadau penodol y gellir eu harsylwi, sy'n briodol i wahanol leoliadau ysgol. Er enghraifft, gallai gwerth fel 'parch' gael ei weithredu drwy helpu eraill yn yr ystafell ddosbarth neu dacluso ar eich ôl yn y ffreutur. Mae'r ymddygiadau hyn yn cael eu dysgu, eu modelu a'u gwobrwyo'n eglur drwy adborth (Horner, Sugai ac Anderson, 2010). Mae'r gwerthoedd a'r disgwyliadau'n cael eu crynhoi fel arfer mewn matrics ymddygiad ysgol gyfan – dogfen gyfeirio a arddangosir yn gyhoeddus sy'n hyrwyddo cyd-ddealltwriaeth ac arferion cyson ar draws y staff a'r dysgwyr (Kelm, McIntosh a Cooley, 2014). Drwy wneud hyn, mae SWPBS yn cefnogi ysgolion yng Nghymru i gyflawni eu goblygiadau statudol gan hefyd ymwreiddio agwedd ataliol, berthynol a chynhwysol i ymddygiad.

Addysgir rheolau'n bennaf ar ddechrau pob blwyddyn ysgol ac yna atgoffir y dysgwyr amdanynt yn barhaus drwy gydol y flwyddyn drwy systemau o gydnabyddiaeth ac atgyfnerthu, a'u cywiro gydag adborth (Honer a Sugai, 2015). Unwaith mae'r rheolau wedi cael eu haddysgu, gweithredir system o gydnabyddiaeth sy'n gwobrwyo'r ymddygiadau cymdeithasol-fuddiol a nodir yn y matrics ysgol. Mae'r system hon yn cryfhau ac yn cynnal yr ymddygiadau a addysgir (Simonsen, Sugai a Negron, 2008). Ymhlith y llenyddiaeth, dangosir bod canmoliaeth benodol yn gostwng ymddygiad problemus mewn ystafelloedd dosbarth ac mae'n rhan allweddol o reolaeth effeithiol ar y dosbarth (Briere et al., 2015). Mae canmoliaeth benodol yn cyfeirio at nodi'r union ymddygiad y mae person wedi'i ddangos sy'n haeddu geiriau o ganmoliaeth, er enghraifft, "Da iawn ti am wthio dy gadair i mewn". Mewn lleoliad SWPBS, dylai athrawon fod yn cyfeirio dysgwyr yn ôl at werthoedd yr ysgol, "Da iawn ti am wthio dy gadair i mewn, mae hynny'n dangos parch at eiddo ac at bobl eraill". Nid yw'r sail dystiolaeth wedi cytuno ar y maint gorau o ganmoliaeth benodol neu ganmoliaeth gyffredinol i'w rhoi, ond mae wedi dangos bod naill ai gymhareb o sylwadau 4:1 cadarnhaol i negyddol (Reinke, Herman a Stormont, 2013), neu rhwng 6 a 10 o ddatganiadau cadarnhaol bob 15 munud (Sutherlan, Wehby a Copeland, 2000) yn ddigonol i weld newid ymddygiad cadarnhaol. Mae tactegau rhagweithiol i'w cael a ddefnyddir i atal ymddygiadau amhriodol rhag digwydd, ond mae hefyd angen ffurfio system i ymdrin ag ymddygiadau amhriodol pan maen nhw'n digwydd.

Cyn datblygu system i gywiro ymddygiad amhriodol, rhaid diffinio ymddygiad amhriodol o fewn yr ysgol a'i phoblogaeth benodol a'r gymuned ehangach. Trwy wneud hynny, mae'r staff a'r dysgwyr i gyd yn deall yn union pryd y bydd sancsiynau'n cael eu rhoi, a gall y data gael ei gasglu'n fwy cywir os yw pawb yn deall y diffiniadau o ymddygiadau amhriodol (Horner a Sugai, 2015). Unwaith y bydd ymddygiad amhriodol wedi'i adnabod a'i ddiffinio'n weithredol, mae angen i ysgolion ddatblygu hierarchaeth neu gontinwwm o ganlyniadau wedi eu seilio ar nifer o ymddygiadau, a difrifoldeb ymddygiadau ac mae hyn ar gael yn gyhoeddus (Kelm, McIntosh a Cooley, 2014).

Mae'n bwysig diffinio'n glir beth mae'r gair 'canlyniadau' yn ei olygu mewn system SWPBS. Er ei fod yn gallu cynnwys mathau o sancsiynau, mae mwy o ffocws ar atal ymddygiadau yn y dyfodol drwy ddulliau addysgu ac atgyfnerthu. Mewn ysgol sy'n defnyddio dull SWPBS, hyfforddir y staff i ymateb yn y ffordd a ganlyn i achosion o ymddygiad amhriodol, p'un a yw'r ymddygiad yn gwarantu gweithredu pellach ai peidio: mae'r staff yn enwi'r ymddygiad problemus a welwyd, ac yna maen nhw'n nodi beth yw'r disgwyliad yn nhermau gwerthoedd ysgol "Fe waeddaist ti pan oeddwn i'n siarad, coda dy law os wyt ti eisiau siarad i ddangos parch at bobl eraill". Yna byddai'r staff yn modelu'r ymddygiad priodol ac yn gofyn i'r dysgwr gopïo. Yn olaf, dylai'r staff gydnabod ac annog y dysgwr i ymddwyn yn y ffordd briodol (George a Kincaid, 2008).

Mae'r canlyniadau eraill a ddefnyddiwyd drwy'r llenyddiaeth i gyd yn cynnwys newid cyfeiriad dysgwyr sy'n ymddwyn yn amhriodol (fel symud gweithgaredd neu dynnu sylw dysgwr yn dawel i ffwrdd oddi wrth ymddygiad aflonyddgar a thuag at dasg fwy priodol), newid trefn y seddi neu newid yr amgylchedd mewn ffordd arall, er enghraifft symud eitemau sy'n temtio i ffwrdd, rhoi rhybudd, gwobrwyo ymddygiadau priodol eraill, ymgynghori â rhieni a/neu ddysgwyr, rhoi dewisiadau, contractau wrth gefn, canmol dysgwyr eraill sy'n ymddwyn yn briodol, a chadw dysgwyr i mewn ar gyfer rhan o'u hamser chwarae neu ar gyfer yr amser chwarae i gyd. (Netzel ac Eber, 2003; Reinke, Herman a Sprick, 2011; Reinke, Herman a Stormont 2013; Sugai et al., 2000).

Mae'r systemau cyffredinol hyn o fudd i'r mwyafrif o ddysgwyr, ond efallai y bydd angen i rai dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol dderbyn cymorth wedi'i deilwra, triniaeth dosturiol a chymorth arbenigol er mwyn ffynnu yn yr ysgol. Gall asesiad ymddygiad swyddogaethol gefnogi datblygiad cynlluniau ymddygiad unigolyddol.

## Haen 2: Cefnogaeth wedi'i Thargedu

Er bod cymorth cyffredinol yn ddigonol i annog ymddygiad cadarnhaol gan y mwyafrif o ddysgwyr, mae angen defnyddio dull wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer rhai dysgwyr. Weithiau mae diagnosis ychwanegol gan y dysgwyr hyn, neu hanes o drawma, ac efallai nad oes ganddynt y sgiliau gofynnol i lwyddo yn yr ysgol. Mae angen asesiad unigol, dealltwriaeth a chymorth ar y dysgwyr hyn, ac maen nhw'n haeddu hynny. Mae Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol (FBA) yn broses a ddefnyddir mewn Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) i adnabod swyddogaeth danategol ymddygiad problemus ac i ddatblygu ymyriadau effeithiol.

### Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol

Mae asesiad swyddogaethol yn strategaeth wedi ei seilio ar dystiolaeth y gall athrawon ei defnyddio i ddeall ymddygiad yn well (Flanagan, et al., 2020; Nessleroad et al., 2022) ac i ddatblygu ymyriad tosturiol, plentyn-ganolog. Dangosodd Austin et al, (2015) fod asesiad swyddogaethol wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru. Roedd yr asesiadau swyddogaethol yn dangos bod dysgwyr yn ymddwyn mewn ffordd broblemus am wahanol resymau: roedd rhai dysgwyr yn defnyddio ymddygiad

problemus i gael sylw ac roedd eraill yn ei ddefnyddio i osgoi neu ddianc rhag galwadau tasgau. Pan mae'r athrawon yn deall pam mae'r dysgwyr yn ymddwyn mewn ffordd broblemus, maen nhw mewn sefyllfa well i atal ac ymateb i ddigwyddiadau o'r fath. Bydd y dadansoddiad swyddogaethol yn helpu athrawon i adnabod y diffygion mewn sgiliau sy'n arwain at ymddygiad problemus. Gallai'r sgiliau hyn gynnwys gofyn ac aros am: sylw athro neu gyfoedion, cymorth, neu egwyl. Mae angen cymorth ychwanegol ar rai dysgwyr i ddyfalbarhau gyda thasgau anodd neu ddiflas neu i oddef a rheoli emosiynau. Mae astudiaethau wedi dangos bod ymyriadau'n arwain at well canlyniadau pan maen nhw wedi eu hysbysu gan ddadansoddiad swyddogaethol (Ingram, Lewis-Palmer a Sugai, 2005; Santiago et al., 2016).

Mae'r broses asesiad ymddygiad swyddogaethol yn cynnwys tri phrif gam fel arfer:

1. **Casglu gwybodaeth**: Mae'r cam cyntaf mewn asesiad ymddygiad swyddogaethol yn cynnwys casglu gwybodaeth yn systematig am yr ymddygiad sy'n achosi pryder. Mae hyn yn cynnwys adnabod pryd mae'r ymddygiad yn digwydd, beth sy'n digwydd cyn yr ymddygiad (rhagflaenwyr), beth sy'n digwydd yn ystod yr ymddygiad ei hun, a beth sy'n ei ddilyn (canlyniadau). Mae'r data'n cael eu casglu drwy amrywiol ddulliau fel arfer, yn cynnwys arsylwi'r dysgwr yn uniongyrchol mewn lleoliadau naturiol yn yr ysgol, cynnal cyfweliadau strwythuredig gyda staff a gofalwyr, a gwneud adolygiad o gofnodion dysgwyr cyfredol (fel cynlluniau cefnogi blaenorol, data am bresenoldeb, neu adroddiadau am ddigwyddiad). Trwy adolygu'r cofnodion hyn gellir cael cyd-destun hanesyddol pwysig a helpu i adnabod unrhyw batrymau neu sbardunau nad ydynt efallai'n weladwy ar unwaith yn ystod yr arsylwi.

2. **Deall data**: Unwaith y bydd y data wedi eu casglu, cânt eu dadansoddi i adnabod patrymau a deall swyddogaeth(au) gwaelodol yr ymddygiad. Gellir ystyried mai'r swyddogaeth yw'r diben, neu'r rheswm dros yr ymddygiad. Mae dadansoddiad yn gofyn adnabod y rhagflaenwyr a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r ymddygiad a defnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu damcaniaeth am swyddogaeth yr ymddygiad.

3. **Datblygu ymyriadau**: Ar sail y wybodaeth a gesglir ac a ddadansoddir yn y ddau gam cyntaf, datblygir ymyriadau sy'n targedu swyddogaeth(au) tanategol yr ymddygiad. Mae'r ymyriadau hyn wedi eu llunio i addysgu ymddygiadau amgen i ddysgwyr sy'n ymdrin â'r un swyddogaeth(au) â'r ymddygiad problemus, neu i newid yr amgylchedd er mwyn gostwng sawl gwaith mae'r ymddygiadau heriol yn digwydd.

Yn gyffredinol, mae defnyddio asesiad swyddogaethol mewn SWPBS yn helpu i sicrhau bod yr ymyriadau'n effeithiol o ran ymdrin ag ymddygiad problemus drwy adnabod swyddogaeth(au) tanategol yr ymddygiad a datblygu ymyriadau sy'n targedu'r swyddogaethau hyn.

## Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad

Pan fydd dysgwr yn dangos ymddygiad heriol, y rheswm am hynny'n aml iawn yw bod yr ymddygiadau hynny o fudd i'r dysgwr mewn rhyw ffordd. Gall yr ymddygiad heriol sicrhau

sylw gan y staff neu eu galluogi i osgoi gofynion yn y dosbarth sy'n peri straen iddyn nhw. Er mwyn gwneud newid hirdymor yn yr ymddygiad, dylai'r athrawon ystyried a oes gan y dysgwr y sgiliau i ymdopi â galwadau'r ysgol ac i reoleiddio eu hemosiynau a'u hymddygiad. Mae hyfforddiant mewn sgiliau ymddygiad yn gallu helpu dysgwr i ddatblygu ymatebion amgen, cymdeithasol-fuddiol drwy addysgu a defnyddio strategaethau hunan-reoleiddio, cyfathrebu a datrys problemau yn eglur. (Ervin et al., 2018; Reitzel et al., 2013).

Fodd bynnag, bydd achosion yn codi lle mae dysgwyr yn parhau i brofi anawsterau sylweddol er eu bod wedi derbyn cymorth sydd wedi'i weithredu'n dda. Mewn achosion fel hyn, mae'r wybodaeth a gesglir drwy asesiad swyddogaethol ac ymyriad wedi ei seilio ar sgiliau'n gallu chwarae rôl bwysig mewn hysbysu atgyfeiriadau ar gyfer asesiad pellach, yn cynnwys ystyried Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), mynediad i ddarpariaeth arbenigol, neu gefnogi drwy Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY), lle bo'n briodol. Yn y ffordd yma, mae Hyfforddiant Sgiliau Ymddygiad (BST) yn rhan o ymateb ehangach, graddedig i angen y dysgwyr – gan helpu i benderfynu pa gymorth sy'n effeithiol ac a yw'r lleoliad addysgol cyfredol yn parhau'n briodol.

Mae Hyfforddiant Sgiliau Ymddygiad yn ddull cyfarwyddo wedi ei seilio ar dystiolaeth a ddefnyddir yn y dosbarth i addysgu sgiliau newydd i ddysgwyr neu i addasu ymddygiadau cyfredol. Mae'r dull BST yn cynnwys pum prif gam fel arfer:

1. **Addysgu**: Yn y cam hwn, mae'r athrawon yn darparu cyfarwyddiadau llafar neu ysgrifenedig am yr ymddygiad targed neu'r sgiliau sydd i gael eu dysgu. Mae'r cyfarwyddiadau'n glir a gallant gynnwys enghreifftiau o sut i berfformio'r ymddygiad neu'r sgil yn gywir. Gallai'r ymddygiadau gynnwys gofyn am gymorth, parhau gyda thasgau diflas neu anodd, datrys gwrthdaro rhwng cyfoedion neu reoli anghenion synhwyraidd yn annibynnol.

2. **Modelu**: Unwaith y bydd y cyfarwyddiadau wedi eu darparu, mae'r athro'n modelu'r ymddygiad neu'r sgil cywir ar gyfer y dysgwyr. Mae hyn yn cynnwys dangos ymddygiad neu sgil mewn ffordd eglur a gweladwy a gallai gynnwys sylwadau llafar am y camau perthnasol.

3. **Ymarfer**: Rhoddir y cyfle i ddysgwyr ymarfer yr ymddygiad neu'r sgil eu hunain.

4. **Adborth**: Yn y cam terfynol, mae'r athro'n rhoi adborth i'r dysgwyr am y ffordd y maen nhw'n perfformio'r sgil neu'r ymddygiad. Gallai'r adborth hwn gynnwys canmoliaeth am berfformiad cywir ac awgrymiadau am welliant.

Gellir defnyddio Hyfforddiant Sgiliau Ymddygiad i addysgu amrywiaeth eang o ymddygiadau a sgiliau yn yr ystafell ddosbarth, yn cynnwys sgiliau cymdeithasol, sgiliau academaidd, a sgiliau hunanreoli. Gellir gweithredu hwn mewn amrywiaeth o fformatau, yn cynnwys addysgu unigolion, addysgu grwpiau bach, ac addysgu dosbarth cyfan. Trwy ddefnyddio Hyfforddiant Sgiliau Ymddygiad yn y dosbarth, gall athrawon helpu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau y maent eu hangen i lwyddo'n academaidd ac yn gymdeithasol, gan hefyd hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol ac amgylchedd dysgu cadarnhaol.

## Casgliad

Mae anawsterau ymddygiadol mewn ysgolion yn achos pryder cynyddol, ac maen nhw'n peri goblygiadau sylweddol i ganlyniadau addysgol a lles y dysgwyr ac i'w cynhwysiant yn yr ysgol. Mae dysgwyr sy'n cael anawsterau cyson i reoleiddio eu hymddygiad dan risg cynyddol o gael cyrhaeddiad is, straen mewn perthnasoedd a gwaharddiad o'r ysgol. Yng Nghymru, mae data am wahardd yn dangos yn gyson bod grwpiau penodol o ddysgwyr yn cael eu heffeithio fwy nag eraill. Mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), dysgwyr mewn gofal, a rhai o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifoedd Ethnig yn llawer mwy tebygol o gael eu gwahardd na'u cyfoedion (Llywodraeth Cymru, 2023). Mae plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymdeithasol, emosiynol neu iechyd meddwl wedi eu gorgynrychioli hefyd mewn ystadegau gwahardd (Luke ac O'Higgins, 2018; Paget et al., 2018).

I gefnogi'r dysgwyr hyn yn well ac i atal gwaharddiad neu fethiant lleoliad, mae'n rhaid i ysgolion symud i ffwrdd o ymatebion adweithiol a chanolbwyntio ar ddeall y pethau gwaelodol sy'n gyrru ymddygiad. Mae hyn yn cynnwys adnabod y rhyngweithio rhwng anghenion unigolion, cyd-destun yr ystafell ddosbarth, a ffactorau systemig ehangach. Mae asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) yn cynnig dull tosturiol a strwythuredig o adnabod diben ymddygiad a hysbysu ymyriad wedi'i bersonoli. Yn hanfodol, mae'r dull hwn yn alinio ag Agwedd Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Lles Meddwl (WSAEMW) Llywodraeth Cymru, sy'n hyrwyddo arferion ataliol, perthynol a chynhwysol ledled systemau ysgol. O ymwreiddio hyn o fewn y fframwaith ehangach hwn, gall asesiad ymddygiad swyddogaethol gefnogi ysgolion i greu amgylcheddau meithringar lle rhoddir y cyfle i bob dysgwr ffynnu.

Er bod sail dystiolaeth ryngwladol sylweddol yn dangos bod Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) ac ymyriadau ymddygiad wedi'u seilio ar swydddogaeth yn effeithiol o ran gostwng ymddygiad heriol a gwella hinsawdd ysgol, cyfyngedig yw'r dystiolaeth o hyd o'u gweithrediad systematig yn y DU – a llai fyth yng nghyd-destun penodol ysgolion cynradd Cymru. Mae ymchwil addysgol yn cydnabod fwy a mwy bod llwyddiant ymyriad wedi ei siapio nid yn unig gan ei gynllun ond hefyd gan y lleoliad lle mae'n cael ei ddefnyddio. Mae ffactorau fel amgylchedd polisi, modelau dysgu proffesiynol, normau diwylliannol am ymddygiad a disgyblaeth, a chyfrwng iaith oll yn dylanwadu ar weithrediad. Efallai nad yw'r hyn sy'n gweithio mewn un system genedlaethol neu ranbarthol yn cyfieithu'n uniongyrchol i un arall heb addasiad.

Er enghraifft, mae gwaith gwerthuso diweddar o Loegr wedi dogfennu gweithrediad llwyddiannus dulliau ymddygiad ysgol gyfan sy'n alinio ag egwyddorion SWPBS mewn lleoliadau ysgol uwchradd. Mae'r adroddiad The Behaviour Hubs Programme: Interim Report (Adran Addysg, 2023) yn tynnu sylw at welliannau sy'n gysylltiedig â disgwyliadau cyson, datblygiad staff strwythuredig, a defnydd strategol o atgyfnerthu cadarnhaol i ddathlu ymddygiad priodol. Fodd bynnag, mae Cymru'n wahanol i Loegr mewn nifer o agweddau allweddol – yn cynnwys system addysg ddatganoledig, y Cwricwlwm i Gymru, lleoliadau addysg dwyieithog, a blaenoriaethau cenedlaethol amlwg yn ymwneud â chynhwysiant a lles (e.e. y fframwaith Agwedd Ysgol Gyfan at Les Emosiynol a Meddwl).

Felly, roedd y prosiect ymchwil hwn yn ceisio archwilio a ydy hi'n ymarferol gwneud asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, a chael gwell dealltwriaeth o brofiadau athrawon o weithio gyda phobl broffesiynol ym maes ymddygiad i gefnogi dysgwyr sydd â heriau ymddygiadol parhaol. Mae adnabod y galluogwyr ymarferol a'r rhwystrau cyd-destunol i weithrediad yng Nghymru yn gam pwysig tuag at addasu tystiolaeth ryngwladol mewn ffordd sy'n gynaliadwy ac yn ymatebol yn lleol.

# 3. Amcanion a Dulliau Ymchwil

## Amcanion Ymchwil

Dyma oedd amcanion yr ymchwil:

1. Archwilio sut mae modd defnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) a chymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS) yn effeithiol mewn ysgolion cynradd prif ffrwd yng Nghymru i ddeall ac ymateb i ymddygiadau sy'n herio.
2. Archwilio dichonoldeb ac effaith defnyddio ymyriadau ymddygiad unigol wedi eu seilio ar swyddogaethau a ddatblygir drwy gydweithio ar sail ysgol rhwng athrawon ac arbenigwyr ymddygiad.
3. Asesu canfyddiadau athrawon o hyfforddiant, cymorth a phrosesau ymyriad sydd wedi eu hysbysu gan gymorth ymddygiad cadarnhaol (PBS), a'r effaith yr adroddir amdani ar ymddygiad yn y dosbarth, a hyder athrawon.
4. Cynhyrchu argymhellion sydd wedi eu hysbysu gan dystiolaeth ar gyfer polisi, arweiniad a hyfforddiant yn y dyfodol i gefnogi ymddygiad mewn ysgolion yn unol â'r diwygiad Agwedd Ysgol Gyfan tuag at Les Emosiynol a Meddyliol (WSAEMW) a'r Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

## Nodau ac Amcanion

Nod y prosiect yma oedd archwilio dichonolrwydd ac effeithiolrwydd canfyddedig defnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) yn rhan o fframwaith SWPBS haenedig mewn ysgolion cynradd yng Nghymru. Dyma oedd yr amcanion penodol:

- Asesu a allai asesiad ymddygiad swyddogaethol helpu ysgolion i ddeall ac ymateb yn well i ymddygiad heriol cyson.
- Mynd ati gydag athrawon i gydgynhyrchu cynlluniau cynorthwyo ag ymddygiad unigol wedi eu seilio ar swyddogaethau.
- Casglu safbwyntiau athrawon am broses, canlyniadau a gweithrediad ymyriadau wedi eu seilio ar swyddogaethau.
- Archwilio rôl bosibl arbenigwyr ymddygiad mewn cefnogi staff ysgol i fabwysiadu arferion tosturiol wedi eu hysbysu gan dystiolaeth.

## Cwestiynau Ymchwil

Dyma oedd y cwestiynau ymchwil:

1. Pa mor ymarferol yw gweithredu prosesau asesu swyddogaethol mewn lleoliadau ysgol gynradd prif ffrwd yng Nghymru?
2. Sut mae athrawon yn ystyried gwerth ac effaith mewnbwn gan arbenigwyr ymddygiad a chynlluniau ymyriad wedi eu seilio ar swyddogaeth i ddisgyblion sy'n dangos ymddygiadau heriol?

3. Beth yw'r elfennau allweddol sy'n cefnogi neu'n rhwystro gweithrediad llwyddiannus ymyriadau PBS unigol mewn ystafelloedd dosbarth?
4. Pa effaith mae'r ymyriadau hyn yn eu cael ar hyder athrawon ac ymddygiad dysgwyr, a beth ellir ei ddysgu i hysbysu arferion y dyfodol ar raddfa fwy?

## Dulliau

Defnyddiodd yr astudiaeth hon agwedd dulliau cymysg sy'n cyfuno asesiad ymddygiadol uniongyrchol gyda gwerthusiad ansoddol. Dyma oedd y prif gydrannau:

1. Cyfranogwyr: Gweithredwyd y prosiect mewn 9 ysgol gynradd brif ffrwd yng Ngogledd Cymru, oedd yn cynnwys 10 o athrawon a 9 o ddysgwyr a bennwyd gan ysgolion fel rhai sydd mewn perygl o wahardd disgyblion oherwydd ymddygiadau parhaol sy'n herio.
2. Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol (FBA): Gwnaeth arbenigwyr ymddygiad ardystiedig asesiadau ymddygiad swyddogaethol o bob dysgwr, yn cynnwys arsylwadau strwythuredig, cyfweliadau gyda staff ysgol, a dadansoddiad o ragflaenyddion a chanlyniadau i lunio damcaniaeth am swyddogaeth yr ymddygiad.
3. Cyd-gynhyrchu Cynlluniau Cefnogi Ymddygiad: Cafodd cynlluniau ymyriad unigol eu datblygu ar y cyd ag athrawon ar sail canfyddiadau'r asesiadau ymddygiad swyddogaethol. Roedd ymyriadau'n cynnwys strategaethau wedi eu seilio ar dystiolaeth fel cwrdd wrth gyrraedd ac ymadael (Check-in/Check-out), arferion rheolaidd wedi eu hysbysu gan drawma, dysgu cymdeithasol-emosiynol, a chymorth academaidd.
4. Hyfforddiant Athrawon: Darparodd arbenigwyr ymddygiad hyfforddiant ar ymyriadau wedi eu seilio ar swyddogaethau ac egwyddorion ymddygiadol i athrawon oedd yn cymryd rhan.
5. Cyfweliadau Ansoddol: Ar ôl y gweithrediad, cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda'r holl athrawon oedd yn cymryd rhan er mwyn archwilio eu profiadau, eu canfyddiadau o'r effaith, a'r rhwystrau i weithrediad.
6. Dadansoddiad: Dadansoddwyd data o gyfweliadau gan ddefnyddio dadansoddiad o gynnwys thematig i adnabod themâu allweddol yn ymwneud â dichonoldeb, effeithiolrwydd canfyddedig, a'r hyn a ddysgwyd gan athrawon. Defnyddiwyd canlyniadau arsylwadol ac adborth athrawon i werthuso newid ymddygiadol.

## Cyfranogwyr

Cymerodd cyfanswm o 9 dysgwr a 10 athro o 6 ysgol gynradd yng Ngogledd Cymru ran yn y prosiect. Atgyfeiriwyd y dysgwyr am eu bod yn dangos ymddygiadau parhaol, heriol oedd yn eu rhoi nhw dan risg o gael eu gwahardd. Gwelwyd y cyfranogwyr i gyd yn ymddwyn yn gorfforol ymosodgar yn erbyn cyfoedion neu staff ysgol.

## Ysgolion

Recriwtiwyd cyfranogwyr drwy gyfrwng samplu caseg eira trwy gydweithio â'r Gwasanaeth Rhanbarthol Gwella ac Effeithiolrwydd Ysgol i Ogledd Cymru (GwE). Canfuwyd ysgolion am eu bod wedi dangos diddordeb yn y gorffennol mewn cydweithio i wneud ymchwil gyda Phrifysgol Bangor ac am fod ganddynt brofiad o weithio gyda dysgwyr sy'n dangos

anghenion ymddygiadol sylweddol. Cysylltwyd â nhw i ddechrau gan dîm ymchwil o Brifysgol Bangor dros y ffôn ac mewn e-bost, a gwahoddwyd ysgolion oedd â diddordeb i sesiwn briffio ar-lein a ddarparwyd dros Microsoft Teams.

Gwnaethpwyd yr astudiaeth rhwng Gwanwyn 2022 a misoedd cynnar 2023, ac yn ystod yr amser hwnnw ymrwymodd yr ysgolion oedd yn cymryd rhan i ymgysylltu yn y broses gyfan o asesu ymddygiad swyddogaethol a chyd-gynhyrchu cynllun ymyriad o ran ymddygiad. Cytunodd bob ysgol i ddarparu mynediad at athro ystafell ddosbarth wedi'i enwebu, cymorth gan arweinydd uwch, a chaniatâd i arsylwi dysgwr a nodwyd yn ddysgwr oedd yn dangos ymddygiadau ymosodgar cyson.

Cymerwyd rhan gan chwe ysgol gynradd i gyd, wedi eu tynnu o dri awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Roedd yr ysgolion yn cynrychioli cymysgedd o gyd-destunau trefol a gwledig, ac er nad oedd hon yn sampl wedi'i haenu'n ffurfiol, gwnaed ymdrechion i sicrhau graddfa o amrywiaeth gyd-destunol. Cyn casglu data, sicrhawyd cydsyniad gwybodus gan benaethiaid, athrawon dosbarth, a rhieni neu ofalwyr y dysgwyr oedd yn cymryd rhan. Derbyniodd yr ysgolion i gyd sesiwn hyfforddi cyn-ymyriad a chefnogaeth ddilynol gan ddadansoddwr ymddygiad ardystiedig (UKBA(tyst)) a oedd yn rhan o'r tîm ymchwil.

**Dysgwyr**

Cyfeiriwyd y dysgwyr i gyd at y prosiect gan eu hathrawon dosbarth am eu bod yn dangos ymddygiadau dwysedd uchel cyson – yn arbennig ymddygiad ymosodol llafar a chorfforol – oedd heb ymateb i strategaethau ymddygiad nodweddiadol o fewn yr ysgol. Roedd yr ymddygiadau hyn yn aflonyddu'r dysgu'n sylweddol ac, ymhob achos, wedi arwain at waharddiadau tymor sefydlog o'r ysgol. Er gwaethaf y gwaharddiadau hyn, soniodd y staff mai ychydig iawn o newid hirdymor a welwyd mewn ymddygiad, neu ni welwyd dim o gwbl, ac roedd y dysgwyr yn dal i fod mewn perygl o gael eu gwahardd ymhellach. Mewn nifer o achosion, nododd yr athrawon fod y gwaharddiadau heb ymdrin â'r elfennau tanategol oedd yn gyrru'r ymddygiad ac, mewn rhai achosion, roeddent wedi aflonyddu ymhellach ar berthynas ac arferion rheolaidd y dysgwyr.

Cymerodd naw o ddysgwyr ran yn yr astudiaeth. Cawsant eu dosbarthu ar draws grwpiau blwyddyn fel a ganlyn: un dysgwr yn y Dosbarth Derbyn, un ym Mlwyddyn 1, un ym Mlwyddyn 2, dau ym Mlwyddyn 4, un ym Mlwyddyn 5 (y dysgwr oedd wedi mynychu uned cyfeirio disgyblion yn y prynhawniau gynt), a thri ym Mlwyddyn 6. Ar adeg y cyfranogi, nid oedd unrhyw un o'r dysgwyr wedi derbyn diagnosis ffurfiol o anhawster dysgu, cyflwr niwroddatblygiadol, nag angen iechyd meddwl. Roedd y dysgwyr i gyd yn mynd i'w lleoliadau prif ffrwd cyfredol yn llawn amser, heblaw am y dysgwr Blwyddyn 5, oedd wedi symud yn ôl yn ddiweddar o bresenoldeb rhan amser mewn uned cyfeirio disgyblion (PRU).

Dim ond un o'r naw dysgwr oedd â Chynllun Datblygu Unigol (CDU) wedi'i ddogfennu'n ffurfiol oedd yn cynnwys cymorth staff un-i-un llawn amser. Mae CDU yn ddogfen gynllunio statudol o dan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018

sy'n amlinellu'r Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a adnabuwyd mewn plentyn a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (ALP) sy'n ofynnol i ateb yr anghenion hynny. Nid oedd y dysgwyr eraill wedi eu nodi'n ffurfiol eto fel rhai gydag ADY ar adeg yr astudiaeth. Er bod pryderon wedi eu codi, dywedodd staff yr ysgol bod proses i wneud y gwaith asesu a'r casglu tystiolaeth oedd yn ofynnol ar gyfer nodi ffurfiol a chynllunio darpariaeth. Mewn rhai achosion, roedd atgyfeiriadau at Seicolegydd Addysg neu wasanaethau cynghori allanol wedi eu cychwyn ond roedden nhw'n atebol i amseroedd aros.

Nod y prosiect oedd ymyrryd ar gam cynnar – cyn pennu ADY yn ffurfiol – i gynnig cymorth wedi'i strwythuro i staff allu deall swyddogaeth yr ymddygiadau hyn ac i ddylunio ymatebion wedi'u targedu. Tynnodd athrawon sylw at y ffaith bod patrymau ymddygiad y dysgwyr yn cynyddu o ran dwysedd ac amlder, ac, heb gael cefnogaeth ychwanegol, roedden nhw'n pryderu y byddai gwaharddiadau pellach yn debygol, ac y gallai lleoliadau ysgol fod o dan risg. Roedd defnyddio'r asesiadau ymddygiad swyddogaethol yn darparu mecanwaith i symud y tu hwnt i ddisgrifiadau lefel arwynebol o ymddygiad ac archwilio dulliau mwy cynaliadwy ac unigolyddol yn y cyd-destun lleoliadau cyfredol.

Roedd pob dysgwr oedd wedi eu cyfeirio at y prosiect yn dangos ymddygiadau cyson a oedd yn torri ar draws eu dysgu'n sylweddol ynghyd â diogelwch lles pobl eraill. Er bod y meini prawf cynhwysiant ffurfiol yn canolbwyntio ar ymddygiadau dwysedd uchel cyson oedd heb ymateb i ymyriadau ystafell ddosbarth nodweddiadol, nid oedd yn ofyniad bod yr ymddygiad yn cynnwys ymosodedd corfforol. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, soniwyd fod pob un o'r naw dysgwr wedi dangos ymddygiad ymosodgar corfforol neu eiriol tuag at staff neu gyfoedion, yn cynnwys taro, cicio, taflu gwrthrychau neu ymddygiad bygythiol. Mae'r patrwm hwn yn alinio â data cenedlaethol sy'n dangos bod camdriniaeth lafar ac ymosodedd corfforol ymysg y rhesymau mwyaf cyffredin am wahardd disgyblion o ysgolion yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2023).

Dyma oedd y meini prawf cynhwysiant ar gyfer yr astudiaeth:

- Mae'r dysgwr wedi dangos ymddygiadau cyson sy'n herio ac yn aflonyddu;
- Nid yw'r ymddygiad wedi gwella er gwaethaf defnyddio strategaethau safonol o fewn yr ysgol;
- Mae'r dysgwr mewn perygl o gael eu gwahardd neu maen nhw wedi derbyn un neu fwy o waharddiadau tymor sefydlog;
- Roedd yr ysgol yn fodlon cymryd rhan mewn proses asesu ymddygiad swyddogaethol a chyd-ddatblygu cynllun cymorth unigolyddol.

Er nad oedd ymddygiad ymosodgar wedi'i nodi'n eglur fel nodwedd ofynnol ar gyfer cael eu cynnwys, daeth i'r amlwg fel nodwedd gyson ymhob achos a gyfeiriwyd. Mae hyn yn awgrymu bod ymddygiad ymosodgar yn cynrychioli pwynt di-droi'n-ôl i lawer o ysgolion a sbardunodd y cais am gymorth ychwanegol.

Roedd nifer o'r ysgolion a gymerodd ran wedi eu cyfeirio atynt eu hunain fel ysgolion sydd â dulliau "wedi'u hysbysu gan drawma" yn rhan o'u gwaith – sy'n golygu bod eu staff wedi derbyn hyfforddiant am effeithiau profiadau plentyndod niweidiol (ACE) ac wedi anelu at greu amgylcheddau cefnogol ac emosiynol ddiogel i ddysgwyr. Ond, roedd y staff yn dal i sôn nad oeddent yn teimlo bod ganddynt y gallu i ddeall neu reoli dwysedd a chysondeb yr ymddygiad a ddangoswyd gan rai dysgwyr. Roedd eu cyfranogaeth yn y prosiect hwn yn adlewyrchu dymuniad i adeiladu mwy o gapasiti drwy ddulliau wedi eu hysbysu gan dystiolaeth a'u seilio ar swyddogaethau oedd yn cyflenwi arferion perthynol oedd yn bodoli'n barod.

Darparodd rhieni ac athrawon pob un o'r dysgwyr gydsyniad gwybodus ar gyfer y prosiect a chytuno y cai'r data gael eu defnyddio i hysbysu'r adroddiad hwn. Cytunon nhw y byddai'r arbenigwr ymddygiad yn arsylwi'r plentyn yn yr ysgol ac yn siarad gyda'r staff am ymddygiad y dysgwr. Hysbyswyd y rhieni bod hawl ganddynt dynnu eu plentyn a data eu plentyn allan unrhyw bryd cyn i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu. Roedden nhw'n deall y byddai data eu plentyn yn aros yn ddienw.

### Athrawon

Roedd naw athro dosbarth a gymerodd ran yn y prosiect. Nid oedd un athro ar gael ar gyfer y cyfweliad terfynol i werthuso'r prosiect, felly cafodd cyfanswm o wyth athro eu cyfweld. Roedd yr athrawon i gyd wedi cwblhau eu blwyddyn Athro Newydd Gymhwyso ac wedi bod yn addysgu am o leiaf blwyddyn lawn ar adeg yr astudiaeth. Rhoddodd yr athrawon i gyd ganiatâd gwybodus i'w cyfranogiad yn y prosiect a chytuno y cai dyfyniadau uniongyrchol a roddwyd yn y cyfweliad hysbysu'r adroddiad hwn.

### Arbenigwyr mewn Ymddygiad

Roedd pob un o bedwar aelod y tîm ymchwil yn arbenigwyr ymddygiad ardystiedig sydd â'r UKBA (tyst). Mae'r rheiny sydd â UKBA (Tyst) wedi cwblhau hyfforddiant ôl-raddedig mewn dadansoddi ymddygiad, wedi derbyn hyfforddiant trwyadl dan oruchwyliaeth, wedi cwblhau hyfforddiant ôl-raddedig mewn dadansoddi ymddygiad, ac wedi cytuno i god moeseg a gweithdrefn gwyno, ac yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol parhaus yn flynyddol. Roedd gan yr arbenigwyr ymddygiad i gyd dystysgrif DBS manylach ac roeddent oll wedi derbyn yr hyfforddiant diogelu diweddaraf. Maen nhw'n cael eu rheoleiddio gan Gymdeithas Dadansoddi Ymddygiad y DU (UKSBA) sy'n cadw cofrestr PSA wedi'i hachredu.

## Gweithdrefn

### Hyfforddiant Staff

Darparodd yr arbenigwyr ymddygiad sesiwn hyfforddi ddwy awr ar swyddogaethau ymddygiad ac ymyriadau tosturiol drwy Zoom i grwpiau o athrawon cyn y gwnaed unrhyw ymyriad o fewn y lleoliad. Darparwyd yr hyfforddiant wedi i'r diwrnod ysgol ddod i ben, ar amseroedd oedd yn gyfleus i'r athrawon. Teitl yr hyfforddiant oedd: "Meddwl yn Ymddygiadol" ac roedd yn cynnwys gwybodaeth am y meysydd a ganlyn:

1. Pam mae ymddygiad yn digwydd
2. Pwysigrwydd diffinio ymddygiadau cadarnhaol yn y dosbarth
3. Addysgu, modelu a chydnabod ymddygiadau cadarnhaol yn y dosbarth
4. Gwneud ymddygiadau cadarnhaol yn arferiad
5. Ymateb i ymddygiadau amhriodol yn y dosbarth: pwysigrwydd cysondeb
6. Deall ymddygiad problemus parhaol
7. Swyddogaethau cyffredin ymddygiad problemus
8. Atgyfnerthu Gwahaniaethol
9. Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad

**Asesiad Swyddogaethol**

Ymwelodd yr arbenigwr ymddygiad â'r ysgol am un hanner diwrnod i wylio'r dysgwr yn yr ystafell ddosbarth ac o amgylch yr ysgol. Cofnododd yr arbenigwr ymddygiad wybodaeth am yr union ymddygiadau a oedd yn achosi heriau, a beth oedd yn digwydd cyn ac ar ôl i'r ymddygiad ddigwydd. Gofynnwyd i'r athro ac aelodau priodol eraill o staff gwblhau holiadur asesiad swyddogaethol ysgrifenedig (Gwelwch atodiad A) a siarad gyda'r arbenigwr ymddygiad. Mewn dau achos, nid oedd y dysgwr wedi dangos yr ymddygiad problemus yn ystod yr ymweliad cyntaf, felly gwnaethpwyd ail ymweliad. Dadansoddodd yr arbenigwr ymddygiad y data i ffurfio damcaniaeth gyntaf am y pethau oedd yn sbarduno'r ymddygiad a'r canlyniadau sy'n cadw'r ymddygiad yn mynd. Yn ystod yr asesiad ymddygiad swyddogaethol, siaradodd yr arbenigwr ymddygiad â'r athrawon i ddatblygu dealltwriaeth o sgiliau'r dysgwyr.

## Cyd-gynhyrchu Cynlluniau Ymddygiad i'r Unigolyn

Gweithiodd yr arbenigwr ymddygiad gyda'r athro dosbarth a'r staff ysgol perthnasol i lunio cynllun y gellid ei redeg yn effeithiol yn yr ysgol. Roedd y cynlluniau'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut y gallai'r athro addasu'r amgylchedd dosbarth i gefnogi dysgwyr ac yn arbennig ddysgwyr niwrowahanol i deimlo'n gyfforddus yn y dosbarth, Yn ogystal, rhoddodd yr arbenigwr ymddygiad gyngor am raglenni addysgu a allai helpu'r dysgwr i ddatrys sefyllfaoedd problemus yn well. Roedd nifer o'r dysgwyr yn ymddwyn yn ymosodgar at gyfoedion am eu bod wedi mynd yn rhwystredig pan nad oeddent yn gallu ymuno'n llwyddiannus mewn chwarae a gemau. Gallai'r ymyriad yn y fan yma gynnwys syniadau ynglŷn â sut i addasu'r chwarae i fod yn fwy cynhwysol a hefyd raglen i addysgu'r sgiliau sydd eu hangen ar y dysgwyr i negodi ac ymgysylltu â chyfoedion. Os yw'r dysgwr yn troi at ymddygiadau heriol er mwyn dianc rhag tasgau academaidd anodd, gallai'r cyngor gynnwys y ddwy strategaeth o addasu'r dasg a rhoi'r sgiliau iddynt y maent eu hangen i ofyn am gymorth a'r amynedd i ddyfalbarhau â thasgau diflas neu anodd. Bu'r arbenigwr ymddygiad yn hyfforddi'r athro i ddarparu'r cynllun, daeth yn ôl i'r ysgol i wylio'r cynllun yn cael ei weithredu a chynigiodd awgrymiadau am wneud addasiadau, ac roedd ar gael i ateb unrhyw gwestiynau oedd gan yr athrawon am y cynllun. Dychwelodd yr arbenigwr i'r ysgol i wneud un neu ddau o arsylwadau eraill er mwyn asesu effaith y cynllun a gwneud newidiadau os oedd rhaid.

Am fod cwmpas yr astudiaeth yn gyfyngedig ac o ganlyniad i'r cyfyngiadau oedd yn eu lle oherwydd Covid-19 ym mlwyddyn academaidd 2022-23, ni chasglwyd mesurau o ymddygiad disgyblion y gellid eu harsylwi. Fel yr amlinellwyd yn yr adran Dulliau, roedd yr astudiaeth yn dibynnu'n hytrach ar gyfweliadau athrawon a beirniadaeth broffesiynol i asesu newidiadau mewn ymddygiad dros amser. Ond, mae'r anallu i gasglu data systematig cyn ac ar ôl yr ymyriad yn gyfyngiad pwysig am ei fod yn cyfyngu ar y gallu i ddod i gasgliadau gwrthrychol am newid ymddygiad.

Os byddai amodau wedi caniatáu hynny, efallai y byddai mesurau ymddygiadol uniongyrchol wedi cynnwys arsylwadau yn y dosbarth, cyfrifiad o amlder yr ymddygiadau targed (e.e. achosion o ymosodedd corfforol neu wrthod gwneud tasgau), cofnodi proses Rhagarwyddion-Ymddygiad-Canlyniad, neu gyfraddau sgorio ymddygiad wedi eu cwblhau gan yr athro megis TOCA-C (Rhestr Wirio Arsylwad Athro o Addasiad Ystafell Ddosbarth). Byddai'r dulliau hyn wedi darparu darlun manylach a mwy mesuradwy o gynnydd disgyblion ac wedi caniatáu aliniad agosach â dulliau gwerthuso wedi eu seilio ar dystiolaeth. Dylai astudiaethau yn y dyfodol amcannu i ymgorffori mesurau o'r fath i gryfhau dibynadwyedd a chyffredinedd canfyddiadau.

## Casglu a Dadansoddi Data Ansoddol

Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda'r athrawon oedd yn cymryd rhan gan ymchwilydd ar ôl cyfnod o oddeutu mis yn dilyn cwblhau'r asesiad swyddogaethol a'r cynlluniau ymddygiad. Gofynnwyd yr un cwestiynau i bob cyfranogwr am eu meddyliau ynghylch y prosiect a SWPBS. Gofynnodd yr ymchwilwyr a oedd cymryd rhan yn y prosiect wedi achosi newid ymddygiad ar gyfer y dysgwyr a'r staff (Gwelwch Atodiad C am fanylion). Gofynnon nhw a oedd y staff yn credu y byddai'r ysgol yn parhau i wneud yr asesiadau ymddygiad swyddogaethol a'r ymyriadau cynllun cymorth o ganlyniad i'r asesiad, a oedd eu teimladau am y prosiect wedi newid dros amser, a pha newidiadau yr oedd athrawon wedi eu gwneud i'w hystafell ddosbarth neu i bolisi ymddygiad yr ysgol oherwydd y prosiect. Nod y cyfweliadau oedd asesu pa elfennau o'r prosiect yr oedd staff yn teimlo eu bod wedi eu gweithredu yn eu hysgol, ac archwilio eu barn am y rhwystrau a'r ffactorau hwyluso a allai fod wedi cael dylanwad ar y prosiect. Roedd yr ymchwilydd yn ofalus i beidio dylanwadu ar ymatebion neu ofyn cwestiynau arweiniol.

Defnyddiwyd dadansoddiad thematig a methodoleg ansoddol a dadansoddwyd data o 9 cyfweliad lled-strwythuredig. Defnyddiodd yr awduron a'r ymchwilwyr ddull lluniadaethol a dadansoddiad thematig i ddeall profiadau goddrychol athrawon a gymerodd ran yn y Prosiect PBS mewn Ysgolion (Charmaz, 2014). Gall dull lluniadaethol gefnogi dadansoddiad ansoddol drwy ddarparu fframwaith damcaniaethol sy'n cydnabod rôl ffactorau cymdeithasol a diwylliannol mewn siapio profiadau a dehongliadau unigolion o'u profiad. Yn ôl lluniadaeth, mae unigolion yn mynd ati'n weithredol i adeiladu eu dealltwriaeth eu hunain o'r byd drwy eu rhyngweithio â'u hamgylchedd a phobl eraill. Felly, roedd yr ymchwilwyr yn ystyried sut mae unigolion yn gwneud synnwyr o'u profiadau a sut mae eu cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol yn dylanwadu ar eu dehongliadau.

Dadansoddwyd trawsgrifiadau cyfweliadau drwy ddadansoddiad thematig yn dilyn y chwe cham a nodir yn Braun a Clarke (2006). Dewiswyd dadansoddiad thematig fel y dull dadansoddol mwyaf priodol oherwydd ei hyblygrwydd a'i briodoldeb i adnabod nodweddion cyffredin a nodweddion amrywiol yn y profiadau a adroddir gan y cyfranogwr (Braun a Clarke, 2006). Roedd y dull yma'n fwy dymunol na methodolegau mwy deongliadol neu rai wedi eu seilio ar drafodaeth am fod yr astudiaeth yn gobeithio cynhyrchu mewnwelediadau ymarferol sy'n berthnasol i ymyriad wedi ei seilio mewn ysgol, yn hytrach na chanolbwyntio ar fframio ieithyddol neu strwythur naratif dwfn. Hefyd, roedd dadansoddiad thematig yn caniatáu i'r ymchwilwyr gadw'n agos at eiriau a phrofiadau'r cyfranogwyr, gan nodi patrymau a allai hysbysu arferion a pholisïau'r dyfodol.

Roedd y dadansoddiad yn dilyn proses chwe cham Braun a Clarke:

1. Ymgyfarwyddo â'r data drwy ddarllen trawsgrifiadau drosodd a throsodd;
2. Cynhyrchu codau cychwynnol i adnabod nodweddion ystyrlon y data;
3. Chwilio am themâu drwy grwpio codau perthnasol i mewn i gategorïau ehangach;
4. Adolygu'r themâu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gyfres ddata'n gywir;
5. Diffinio ac enwi themâu i hogi eu ffocws a'u cydlyniad dadansoddol;
6. Cynhyrchu'r adroddiad, gan integreiddio sylwadau dadansoddol gyda dyfyniadau darluniadol.

Roedd y broses yn iteraidd, a chadwyd atgyrchedd drwyddo draw, gyda'r tîm ymchwil yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod penderfyniadau codio a dehongliadau er mwyn gwella credadwyedd a dibynadwyedd y dadansoddiad.

# 5. Canfyddiadau

## Asesiad Swyddogaethol a Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad

Roedd canlyniadau'r asesiad swyddogaethol yn cadarnhau bod y dysgwyr a gyfeiriwyd at y prosiect yn dangos ymddygiadau heriol oedd yn amharu'n ddifrifol ar eu dysgu nhw eu hunain, dysgu pobl eraill a'r addysgu yn y dosbarth.

**Y Rheswm am Atgyfeirio**
Cyfeiriwyd pob un o'r naw cyfranogwr at y prosiect am eu bod yn dangos ymddygiad ymosodol tuag at gyfoedion ac weithiau roedd pedwar o'r naw dysgwr yn ymosodol tuag at staff yr ysgol. Roedd yr ymddygiad ymosodol yn cynnwys taro, cicio, gwthio, taflu gwrthrychau at bobl ac iaith ddigywilydd a sarhaus. Byddai'r tri dysgwr yn rhedeg allan o'r ystafell ddosbarth ac roedden nhw dan risg o adael yr ysgol yn ystod y dydd.

**Canlyniadau'r Asesiad Swyddogaethol**
Datgelodd y dadansoddiad swyddogaethol esboniadau clir am ymddygiad ymosodol pob dysgwr. Roedd y swyddogaethau'n cynnwys cael sylw gan gymheiriaid a staff. Weithiau pan oedd y dysgwyr eisiau sylw ac nid oeddent yn gallu cael y sylw yr oeddent yn crefu amdano, roedden nhw'n mynd yn flin ac yn ymddwyn yn ymosodol. Weithiau, roedd y dysgwyr yn ymosodgar pan oeddden nhw'n cael sefyllfa'n gymhleth a doedden nhw ddim yn siŵr beth roedd pobl yn ei ddisgwyl ganddynt. Argymhellwyd bod y staff yn ceisio lliniaru'r sefyllfaoedd hyn pan oedd modd a hefyd yn cefnogi'r dysgwr i ddatblygu'r hyder i ofyn am eglurhad. Os bydden nhw'n ymosodgar, bydden nhw'n cael cymorth a sylw gan oedolyn. Mynegodd rhai o'r disgyblion eu bod eisiau gwella eu sgiliau cymdeithasol, ac argymhellwyd eu bod yn derbyn addysgu eglur am ddatblygu cyfeillgarwch a sgiliau cymdeithasol.

Roedd argymhellion ar draws yr achosion yn cynnwys strategaethau rhagweithiol i ostwng sefyllfaoedd sy'n sbarduno ymateb – fel sicrhau cyfarwyddiadau clir, cywiro o flaen llaw a chynyddu sylw oedolion i ymddygiadau cymdeithasol-fuddiol – yn ogystal â chefnogi dysgwyr i ddatblygu hyder i ofyn am gymorth neu eglurhad. Bu nifer o athrawon hefyd yn treialu addysgu eglur o amgylch cyfathrebu cymdeithasol ac adeiladu cyfeillgarwch. Er bod y mwyafrif o'r dehongliadau wedi eu tynnu o adroddiadau athrawon, arsylwadau strwythuredig a dadansoddiad o batrwm ymddygiadol, esboniodd dau ddisgybl hefyd yn uniongyrchol eu bod eisiau "bod yn well" am wneud ffrindiau neu "i beidio mynd i drwbl drwy'r amser". Roedd y mewnwelediadau hyn, er eu bod wedi eu cyfyngu'n ddatblygiadol, yn tanlinellu pwysigrwydd gwrando'n ofalus ar lais y dysgwr er mwyn deall swyddogaeth ymddygiadol.

Yna gallai'r staff roi arferion lliniaru ar waith oedd wedi eu teilwra i anghenion unigol pob dysgwr. Er enghraifft, mewn achosion lle'r oedd dryswch neu ddigwyddiad annisgwyl yn sbarduno ymddygiad, cyflwynwyd amserlenni gweledol a dysgu arferion rheolaidd o flaen llaw er mwyn helpu'r dysgwr i ragweld beth fyddai'n digwydd nesaf. Pan oedd disgybl yn ceisio osgoi gorchymyn, byddai tasgau'n cael eu rhannu'n gamau llai a fyddai'n cynnwys dewisiadau clir a hefyd feini prawf clir ar gyfer llwyddo. Mewn sefyllfaoedd lle'r oedd

anawsterau cymdeithasol wedi arwain at rwystredigaeth, rhoddodd y staff gyfleoedd strwythuredig ar waith i gyfoedion ryngweithio ac addysgu sgriptiau penodol ar gyfer ceisio cymorth neu gymryd eu tro bob yn ail.

Ymhob achos, roedd yr ymyriadau'n cynnwys elfen o addysgu sgiliau, lle'r oedd dysgwyr wedi eu cefnogi i ddatblygu strategaethau i reoleiddio eu hemosiynau, gan adnabod sbardunau, a chyfathrebu eu hanghenion yn fwy effeithiol. Roedd y staff yn defnyddio technegau fel modelu, chwarae rôl, ac adborth ar unwaith i helpu i atgyfnerthu'r sgiliau hyn. Dros amser, bu'r dull deuol yma – gostwng sbardunau amgylcheddol gan hefyd adeiladu gallu'r dysgwr – o gymorth i ostwng dibyniaeth ar ymddygiad ymosodgar fel ffordd o ymdopi neu gyfathrebu.

## Disgrifiadau o Ymyriadau

Roedd y cynlluniau cefnogi ymddygiad a grëwyd ar gyfer pob dysgwr wedi eu hysbysu gan ganlyniadau'r asesiadau ymddygiad swyddogaethol a'u llunio ar y cyd â'r athro dosbarth i sicrhau dichonolrwydd ac aliniad ag arferion yr ystafell ddosbarth. Er eu bod wedi'u llunio'n benodol i'r unigolyn, roedd yr ymyriadau'n rhannu elfennau cyffredin ac roedden nhw wedi eu siapio gan egwyddorion ymddygiadol allweddol, gyda phwyslais ar dosturi, ataliad a datblygiad sgiliau.

Roedd nodweddion cyffredin yr ymyriadau'n cynnwys:

- Addasiadau amgylcheddol: Gwelwyd bod llawer o ddysgwyr yn ymddwyn yn ymosodol mewn amgylcheddau lle'r oedd galwadau uchel arnyn nhw neu lle'r oeddent wedi eu gor-ysgogi. Mewn ymateb i hyn, roedd nifer o'r ymyriadau'n cynnwys addasiadau i'r ystafell ddosbarth er mwyn gostwng gorlwytho cymdeithasol neu synhwyraidd. Roedd hyn yn cynnwys gallu mynd i fannau tawel, ysgogiad isel, neu gael cymorth gweledol oedd yn helpu i roi strwythur i'r trawsnewidiad.
- Arferion rheolaidd a phethau'n digwydd yn ôl y disgwyl: Roedd y cynlluniau ymddygiad yn aml yn cynnwys amserlenni gweledol clir, arferion rheolaidd y gellir eu rhagweld, a phromptiau cywiro o flaen llaw i helpu dysgwyr i lywio drwy'r diwrnod ysgol gyda mwy o annibyniaeth a diogelwch.
- Addysgu sgiliau hunan-reoleiddio: Derbyniodd y dysgwyr i gyd addysgu uniongyrchol mewn strategaethau hunan-reoleiddio. Roedd hyn yn amrywio o enwi emosiynau a thechnegau anadlu i strategaethau tawelu strwythuredig a addysgwyd ac a ymarferwyd yn ystod adegau tawel (e.e. drwy straeon cymdeithasol neu chwarae rôl).
- Cymorth cyfathrebu: Gwelwyd ymddygiad bod rhai dysgwyr yn cael ei sbarduno gan anhawster i fynegi eu bod mewn trallod neu ofyn am gymorth. Roedd y gefnogaeth yn cynnwys cardiau cymorth gweledol neu eiriol, modelu iaith ceisio cymorth, a chanmoliaeth am ddefnyddio cyfathrebu amgen yn lle ymosodedd.
- Cymorth oedolion ac adeiladu perthynas: Rhoddwyd 'sesiynau gwirio' rheolaidd i lawer o ddysgwyr gydag oedolyn allweddol, i adolygu disgwyliadau ac adeiladu synnwyr o gysylltiad a diogelwch. Mewn rhai achosion, defnyddiodd y staff systemau gwobrwyo wedi'u personoli hefyd i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol ac ymdrech.

- Ymatebion cyson gan y staff: Roedd y cynlluniau'n cynnwys arweiniad clir i staff ar sut i ymateb i arwyddion cynnar o drallod neu golli rheolaeth yn gynyddol. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys arweiniad cam wrth gam i osgoi atgyfnerthu'r ymddygiad yn anfwriadol (e.e. osgoi sylw damweiniol yn dilyn ymosodedd) a sicrhau cysondeb ar draws yr aelodau staff.

Roedd pob un o'r strategaethau hyn wedi eu gwreiddio yn y ddealltwriaeth bod ymddygiad yn cyflawni swyddogaeth. Roedd yr arbenigwr mewn ymddygiad yn gweithio'n agos â'r athrawon dosbarth i sicrhau bod yr ymyriadau nid yn unig wedi eu hysbysu gan dystiolaeth ond hefyd y gellid eu rheoli o fewn cyd-destun ystafell ddosbarth brif ffrwd.

Soniodd yr athrawon bod eglurder y cynlluniau a'u haliniad â swyddogaeth yr ymddygiad, yn eu helpu nhw i deimlo'n fwy hyderus a chyson yn eu hymatebion. Tynnodd yr athrawon sylw hefyd at y ffaith bod y strategaethau hyn yn gwella nid yn unig ymddygiad y dysgwr ond hefyd eu gallu eu hunain i ddiwallu anghenion y dysgwr mewn ffordd ragweithiol a thosturiol.

## Cyfweliadau lled-strwythuredig gydag athrawon

O ddadansoddiad y data yma, daeth tair thema graidd i'r amlwg o'r cyfweliadau gydag athrawon, a chan bob un nifer o is-themâu. Mae'r themâu wedi eu categoreiddio isod.

Themâu ac is-themâu o gyfweliadau lled-strwythuredig

**Themâu ac Is-themâu**

1. Ceisio cymorth gydag ymddygiad
    - 1.1 Eisiau deall yr ymddygiad yn well
    - 1.2 Deall y dysgwr
    - 1.3 Gwneud eu gorau i'r dysgwr

2. Manteision gweithio gydag arbenigwr ymddygiad
    - 2.1 Gwerthfawrogi'r arbenigedd
    - 2.2 Safbwynt ychwanegol

3. Manteision cymryd rhan
    - 3.1 Gwelliannau i'r dysgwr
    - 3.2 Cysondeb yn nhymor y staff
    - 3.3 Datblygiad Proffesiynol

Mae enghreifftiau isod ar gyfer pob un.

Gofynnwyd i'r athrawon i gyd pam roedden nhw wedi cymryd rhan yn y prosiect.

**Thema 1: Ceisio Cymorth gydag Ymddygiad**

Dywedodd yr athrawon bod angen cymorth arnyn nhw i gefnogi'r dysgwr i wella eu hymddygiad. Roedden nhw wedi nodi eu bod wedi rhoi cynnig ar nifer o strategaethau oedd heb weithio ac wedi croesawu cymorth allanol. Roedden nhw wedi mynegi eu bod eisiau deall diben neu swyddogaeth yr ymddygiad ac ystyried yr ymddygiad yng nghyd-destun ADY. Ymhob achos, dywedodd yr athrawon eu bod eisiau gwneud eu gorau i gefnogi'r dysgwr i lwyddo yn yr ysgol. Mae'r thema hon yn awgrymu bod yr athrawon yn teimlo y byddent yn elwa o gymorth arbenigol gyda dysgwyr sy'n arddangos ymddygiad heriol.

1.1: Eisiau deall yr ymddygiad

P9: "“roedd gennym gwpwl o ddysgwyr oedd yn dangos ymddygiad heriol iawn, ac roedden ni eisiau gwybod mwy ynglŷn â sut y gallem eu cefnogi nhw'n well a chael mwy o wybodaeth a dealltwriaeth".

P8: "roeddem wedi cyflwyno amserlen weledol, oedd heb gael y croeso yr oeddem wedi'i obeithio. Ac felly roeddem yn gweld bod angen strategaethau mwy penodol arnom ni mewn gwirionedd oedd wedi eu seilio ar arsylwi".

Mae'r is-thema hon yn amlygu ysbryd o fod yn agored ac mae'n dangos symudiad i ffwrdd oddi wrth feio'r plentyn a thuag at ddull mwy myfyriol, wedi ei arwain gan anghenion. Mae hefyd yn dangos parodrwydd yr athrawon i ymgysylltu â gwyddoniaeth ymddygiadol er mwyn cefnogi cynhwysiant yn well.

1.2 Deall y dysgwr

Roedd yr athrawon yn gwerthfawrogi cyfleoedd i archwilio angenion dysgwyr unigol yn eu cyd-destun, y tu hwnt i'r ymddygiad ar yr arwyneb. Roedd cydnabyddiaeth bod deall y dysgwr fel person cyfan yn allweddol i wneud cynnydd.

P3: "mae gan y plentyn dan sylw ADHD, a'r hyn roeddwn eisiau ei wneud oedd ceisio mesur beth y gallem ni ei dderbyn ganddo o ran ymddygiad a beth oedd yn annerbyniol i ni".

Mae'r is-thema hon yn amlygu pwysigrwydd agweddau unigol, cyfannol – sy'n gyson ag egwyddorion y system ADY ac arferion wedi eu hysbysu gan drawma – ac mae'n dangos sut mae asesiad swyddogaethol yn helpu i ail fframio canfyddiadau pobl o ymddygiad.

1.3 Gwneud eu gorau i'r dysgwr

Siaradodd yr athrawon gyda synnwyr cryf o ofal a chyfrifoldeb. Roedd nifer ohonynt yn dweud eu bod wedi buddsoddi'n emosiynol yn llwyddiant y disgybl, ac roedden nhw wedi eu cymell i ddod o hyd i atebion a fyddai'n gostwng trallod ac yn cynyddu ymgysylltiad.

P2: “roedd llawer o bethau’n ymwneud ag ymddygiad ers COVID, hefyd, mae’n teimlo fel rasio o amgylch fan hyn. Nid yn academaidd yn unig, yn emosiynol hefyd. Ac roedden ni eisiau sicrhau ein bod yn darparu ar gyfer y plant yn y ddwy ffordd a sicrhau bod rhywbeth yn ei le a fyddai’n eu cefnogi nhw”.

P8: “Felly, roeddem wedi cymryd rhan yn y prosiect, oherwydd roeddem yn teimlo, er ei fod yn amgylchedd gweddol feithringar, a’n bod yn defnyddio nifer o strategaethau’n barod wyddoch chi, sydd o fudd i fwyafrif y plant, roedden ni’n teimlo bod angen yr elfen ychwanegol honno ar un plentyn penodol yn y dosbarth yma”.

Mae’r is-thema hon felly’n atgyfnerthu dimensiwn moesegol addysgu, a’r llafur emosiynol perthnasol. Mae’n dangos bod y prosiect, i lawer o staff, yn alinio gyda’u gwerthoedd craidd a’u hunaniaeth broffesiynol fel addysgwyr.

## Thema 2: Mantais gweithio gydag arbenigwr

Bu’r athrawon yn trafod manteision gweithio gydag arbenigwr ymddygiad ardystiedig i roi cyngor am ddysgwyr sy’n arddangos ymddygiadau heriol sylweddol. Roedden nhw’n cydnabod nad oedd ganddyn nhw’r arbenigedd mewn asesu swyddogaethau ymddygiad. Roedden nhw’n elwa o’r arbenigedd ac o gael safbwynt allanol. Mae’r thema hon yn dangos bod yr athrawon yn gwerthfawrogi arbenigedd gan y person proffesiynol a hefyd y cyfle i rywun newydd wylio ac ystyried yr ymddygiad.

2.1 Gwerthfawrogi’r Arbenigedd

Disgrifiodd y staff fewnbwn arbenigwr ymddygiad fel rhywbeth ymarferol a rhywbeth sy’n tawelu’r meddwl. Roedden nhw’n gwerthfawrogi’r fframwaith strwythuredig a’r hyder proffesiynol a ddaeth gydag arweiniad arbenigwr allanol.

> P9: “Dydyn ni ddim yn brofiadol, a does gennym ni ddim y cymwysterau…Felly, mae cael rhywun sy’n mynd i allu dadansoddi’r ymddygiad hwnnw a gadael i ni wybod yn union beth sy’n mynd ymlaen yn ddefnyddiol iawn. Efallai, wyddoch chi, bod gennym syniad pam mae plant yn gwneud pethau penodol, ond dydyn ni ddim yn gweld popeth”.
>
> P3: “Mae’r cyfathrebu rydw i wedi’i derbyn wedi bod yn wych ac yn amserol bob amser. Mae’r ffordd rwyf wedi gweithio gyda phrosiectau eraill, mae’n gallu teimlo ychydig yn nawddoglyd ar brydiau, ond dydy hynny ddim wedi bod yn wir gyda’r pethau yma. Rydw i wedi teimlo bob amser, ac rydw i’n golygu’r hyn a ddywedaf, mae (*yr arbenigwr ymddygiad*) yn deall ei phethau. A phan fydd hi’n siarad am bethau penodol, dydw i erioed wedi teimlo ei bod hi’n nawddoglyd nac yn teimmlo nad ydw i’n gallu gofyn cwestiwn, neu nad ydw i’n gallu siarad gydag unrhyw un sydd wedi cyfranogi neu wedi bod yn yr ysgol neu wedi gwneud unrhyw beth. Felly, rydw i wedi bod, rydw i wedi bod yn hapus iawn ag o”.

P1: “Daeth, a’i arsyllu am ddiwrnod, ysgrifennodd adroddiad ac ni fyddai wedi gallu bod yn fwy perffaith…”

Mae’r is-thema hon yn dangos gwerth adeiladu gallu ychwanegol i mewn i ysgolion, yn enwedig lle mae ymddygiad yn gymhleth a di-baid. Mae hefyd yn awgrymu bod arbenigedd cydweithredol yn cael ei groesawu, nid ei wrthwynebu, pan mae’n cael ei gyflwyno mewn ffordd sensitif.

2.2 Safbwynt ychwanegol

Roedd athrawon yn disgrifio’r arbenigwr ymddygiad fel rhywun a’u cynorthwyodd i weld pethau’n wahanol. Drwy arsylwi patrymau a chynnig dealltwriaeth, roedden nhw’n annog y staff i feddwl mewn ffordd fwy beirniadol a thosturiol am yr hyn y gallai’r ymddygiad ei olygu.

P2: “Rydw i’n meddwl ei fod yn beth da iawn i gamu’n ôl a meddwl am y plentyn hwnnw’n benodol, sydd, fel y dywedais, dydych chi ddim yn cael yr amser i wneud hynny mewn gwirionedd felly roedd yn braf iawn gwneud dim byd ond meddwl amdano am funud”.

> P7: “I’w weld o safbwynt rhywun arall, i weld yr ymddygiad, oherwydd mae’n beth mor fawr pan fyddwch yn gweithio gydag ymddygiad, gyda phlant, weithiau rydych yn teimlo eich bod efallai’n gwneud y sefyllfa’n waeth, ond i’w weld o safbwynt rhywun arall, dyna oedd o gymorth i mi”.

Mae’r is-thema hon yn cefnogi gwerth arferion myfyriol a’r angen am ofodau proffesiynol diogel, anfeirniadol i ddadansoddi ymddygiad. Roedd yr olwg allanol yn darparu nid yn unig ddealltwriaeth newydd ond hefyd ddilysiad ar gyfer yr hyn yr oedd y staff yn ei wneud yn dda yn barod.

## Thema 3: Canlyniadau Cadarnhaol

Yn rhan o’r thema hon, nododd yr athrawon fuddion gweithio gydag arbenigwr a rhoi cynlluniau ymddygiad ar waith ar sail asesiad swyddogaethol. Dywedodd yr athrawon fod ymddygiad y dysgwyr wedi gwella, a hefyd roedd tîm y staff yn teimlo’n fwy hyderus a medrus.

3.1. Gwelliannau i’r Dysgwr

Soniodd athrawon yn gyson bod gweithredu cynlluniau cefnogi ymddygiad, sydd wedi eu seilio mewn asesiad swyddogaethol, wedi arwain at welliannau ystyrlon ac amlwg yn ymddygiad y dysgwr. Ar draws yr holl ysgolion oedd yn cymryd rhan, gwelodd yr athrawon ostyngiad yn amlder a dwyster yr ymddygiadau oedd wedi aflonyddu gynt ar y dysgu neu wedi achosi pryderon am ddiogelwch. Nid oedd y gwelliannau hyn yn gwbl anecdotaidd; cysylltodd yr athrawon y gwelliannau â newidiadau penodol yn yr amgylchedd dysgu a mabwysiadu strategaethau wedi eu hysbysu gan dystiolaeth oedd yn eu halinio ag anghenion unigol pob dysgwr.

Er enghraifft,

> Meddai P8: “A gallwn weld yn barod y gwahaniaeth mawr y mae’n ei wneud.”

Atseiniwyd y farn hon ar draws y cyfweliadau, gydag athrawon yn aml yn defnyddio geiriau fel “mwy tawel”, “wedi setlo’n well”, “llai ffrwydrol” ac “yn gallu ymddiddori” wrth ddisgrifio newidiadau yn y dysgwr. Mewn nifer o achosion, nododd y staff bod y dysgwyr wedi dechrau datblygu ffyrdd mwy swyddogaethol o fynegi anghenion neu reoleiddio eu hemosiynau – newidiadau datblygiadol allweddol oedd yn mynd y tu hwnt i gydymffurfio syml. Yn bwysig iawn, sicrhawyd y llwyddiannau hyn mewn ystafelloedd dosbarth lle, cyn yr ymyriad, yr oedd y dysgwr wedi ei ystyried yn ddisgybl dan risg o waharddiad neu ymddieithrio.

Pan roddwyd rhesymau am y gwelliannau, cyfeiriwyd at nifer o nodweddion allweddol yr ymyriad:

- Eglurder a chysondeb: Cafodd y dysgwyr fudd o’r disgwyliadau clir a’r arferion rheolaidd a gyflwynwyd yn rhan o’r fframwaith SWPBS cyffredinol, a grëodd amgylchedd mwy rhagweladwy a chefnogol.
- Cymorth wedi ei seilio ar swyddogaeth: Roedd defnyddio asesiad ymddygiad swyddogaethol yn golygu nad oedd ymyriadau’n rhai generig ond, yn hytrach, eu bod yn mynd i’r afael â’r rhesymau penodol pam yr oedd y dysgwr yn ymddwyn yn heriol. Er enghraifft, pan welwyd mai osgoi tasgau anodd oedd un o’r swyddogaethau, roedd sgaffaldio ychwanegol neu addasu’r gwaith yn gostwng rhwystredigaeth ac yn cynyddu ymgysylltiad.
- Gwobr gadarnhaol ac adeiladu sgiliau: Soniodd yr athrawon bod strategaethau atgyfnerthu oedd wedi eu cynnwys yn y cynlluniau wedi helpu i adeiladu ymddygiad cymdeithasol-fuddiol, tra bod sesiynau gwirio strwythuredig yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddysgwyr brofi llwyddiant a theimlo cysylltiad ag oedolion yn yr ysgol.
- Llai o angen am strategaethau adweithiol: Wrth i’r ymddygiadau wella, soniodd yr athrawon am lai o ddibyniaeth ar ymatebion adweithiol neu wahardd. Treuliodd y dysgwyr fwy o amser yn y dosbarth ac roedden nhw’n gallu cymryd rhan yn fwy cyson yn y dysgu.

O’u cymryd gyda’i gilydd, mae ein data’n awgrymu bod y cynlluniau cefnogi ymddygiad wedi cael effaith gadarnhaol nid yn unig ar ostwng ymddygiadau sy’n herio, ond hefyd ar hyrwyddo cynhwysiad, hyder y dysgwr a lles emosiynol. Mewn rhai achosion, soniodd yr athrawon fod yr ymyriad wedi “gweddnewid pethau” i ddysgwyr a fyddai, oni bai am hyn, wedi bod yn teithio tuag at waharddiad. O ystyried natur ataliol y canlyniadau hyn, mae’r thema hon yn cynrychioli cyfiawnhad canolog am weithrediad ehangach cymorth wedi’i seilio ar swyddogaethau mewn lleoliadau cynradd prif ffrwd.

> P8: “A gallwn weld yn barod y gwahaniaeth mawr y mae’n ei wneud”

3.2. Cysondeb ar draws Tîm y Staff

Nododd y staff fod y prosiect wedi gwella cyfathrebiad a chysondeb y tîm cyfan wrth reoli ymddygiad. Roedd pawb oedd yn ymwneud â'r dysgwr "ar yr un dudalen", ac roedd hynny'n gwneud pethau'n rhagweladwy i'r disgybl ac yn lleihau negeseuon cymysg.

> P4: "Gwneud yn siŵr ein bod yn cadw pethau'n gyson fel staff hefyd, felly am ein bod yn gwybod ein bod yn mynd i weithio ar y pethau hynny, roedd ein ffocws ar y pethau hynny, ac rwy'n credu ei fod oll wedi dod ychydig yn fwy cyson. Hefyd, roeddem oll ychydig bach yn fwy ymwybodol o'r hyn roeddem yn ei wneud dw i'n meddwl. Sbardunodd y drafodaeth honno am yr hyn y gallem ei wneud a sut i sicrhau ein bod oll yn gwneud yr un pethau. Felly, ie, roedd yn ddefnyddiol iawn".

P8: "Gallwn weld yn barod y gwahaniaeth mawr y mae'n ei wneud oherwydd mae'n un o'r dosbarthiadau lle mae gennym ddau athro ar hyn o bryd, ac felly mae'n sicrhau ein bod ni ar yr un dudalen hefyd".

Mae'r thema hon yn tynnu sylw at y ffordd y mae manteision ar lefel y system yn gallu dod i'r amlwg o ymyriadau unigol. Pan mae tîm yn berchen ar y cyd ar un cynllun, mae'n dod yn rhan o ddiwylliant ehangach yr ysgol – gan gefnogi lles y disgybl a'r staff.

3.3 Datblygiad Proffesiynol

Mae athrawon wedi disgrifio'r prosiect fel profiad dysgu gwerthfawr, Cawsant offer ymarferol, ffyrdd newydd o feddwl, a mwy o hyder i weithio gydag ymddygiadau sy'n herio.

> P1: "mae wedi cael effaith enfawr arnom ni i gyd. Effaith enfawr go iawn, a'r cwbwl yn gadarnhaol ac rydym wedi ei lwyr fwynhau. Fel y dywedais, nid y plant yn unig sydd wedi gwella. Mae'n ein cynnwys ni hefyd".
>
> P8: "roedd yr holl bethau a grybwyllwyd yn ddeallus iawn i ddweud y gwir. Roeddem yn gwybod am rai ohonyn nhw'n barod ac roedd eraill yn newydd i ni. A rhoddodd ddealltwriaeth dda iawn i ni".
>
> P4: "Ac rwy'n meddwl, wyddoch chi, dydyn ni ddim wedi ei ddefnyddio gydag un plentyn penodol yn unig … rydym wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio'r strategaethau ar gyfer y plant eraill hefyd. Dw i'n meddwl yn sicr bod y syniadau'n gweithio fel dosbarth cyfan".
>
> P9: "Mae gen i'r wybodaeth honno am weddill fy ngyrfa, ac mae hynny'n golygu ei bod ar gael ar gyfer yr ysgol i gyd, i weddill ein dysgwyr ar fy ôl i. Felly, byddwn oll yn elwa ohoni yn y dyfodol yn sicr".

Mae hyn yn awgrymu bod yr effaith wedi ymestyn y tu hwnt i un ymyriad – ac wedi cyfrannu at dwf proffesiynol tymor hirach yr athrawon. Mae'n tanlinellu gwerth ymwreiddio arbenigedd am ymddygiad i mewn i raglen ymgynefino a datblygu staff.

# 6. Cyfyngiadau

Er bod yr astudiaeth hon yn cynnig mewnwelediad gwerthfawr i ymarferoldeb cymorth ymddygiad sydd wedi ei seilio ar swyddogaeth mewn lleoliadau ysgol gynradd, a pha mor dderbyniol ydyw, mae'n rhaid cydnabod nifer o gyfyngiadau. Nid yw'r cyfyngiadau hyn yn tanseilio gwerth y canfyddiadau. Yn hytrach, maen nhw'n cyfeirio at gyfeiriadau pwysig ar gyfer ymchwil a datblygiad yn y dyfodol.

**1. Cwmpas a Graddfa'r Astudiaeth**
Y cyfyngiad mwyaf arwyddocaol oedd y ffaith bod nifer y cyfranogwyr yn isel. Roedd y prosiect yn cynnwys 9 o ddysgwyr a 10 o athrawon ar draws 6 ysgol gynradd a gynhelir. Am fod amseriad yr astudiaeth (gwanwyn 2022), yn cyd-fynd â'r aflonyddwch oedd yn parhau ers cyfyngiadau COVID-19, roedd y staffio yn yr ysgol yn anghyson, ac roedd y gweithgareddau ymchwil yn cael eu haildrefnu'n aml. Roedd y ffactorau hyn yn cyfyngu ar ehangder gweithrediad yr ymchwil a'r posibilrwydd o gasglu data mwy cyfoethog. Dylai'r ystyriaethau ar gyfer ymchwil y dyfodol gynnwys:

- Sampl mwy, a mwy amrywiol o ysgolion a dysgwyr ledled Cymru i wneud yr ymchwil yn fwy cyffredinol.
- Ysgolion gyda lefelau amrywiol o anghenion ymddygiadol a nodweddion demograffig.
- Ystyriaeth o ddyluniadau hydredol neu gamau niferus sy'n caniatáu mwy o sefydlogrwydd mewn casglu data.

**2. Ffocws ar Ysgolion Cynradd**

Gweithredwyd yr astudiaeth hon i gyd mewn lleoliadau ysgol gynradd. Er bod y canfyddiadau'n addawol, mae'n parhau'n aneglur sut y byddai'r model hwn o gymorth yn trosglwyddo i leoliadau addysg uwchradd neu amgen, lle gallai heriau o amgylch ymddygiad, cam datblygiadol a strwythur y staff fod yn wahanol. Dylai'r ystyriaethau ar gyfer ymchwil y dyfodol gynnwys hyn:

- Gellir addasu archwiliad o'r ffordd y gall asesiad swyddogaethol ac arferion wedi eu hysbysu gan SWPBS gael eu haddasu a'u gweithredu mewn ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, neu unedau cyfeirio disgyblion.
- Archwiliad a yw hyder y staff, dichonoldeb ymyriad a chanlyniadau dysgwyr yn gwahaniaethu yn ôl oedran neu leoliad.

**3. Ffocws Ymddygiadol Penodol**
Cyfeiriwyd yr holl ddysgwyr yn yr astudiaeth hon am eu bod yn arddangos ymddygiad corfforol ymosodol. Mae'r ffocws ymddygiadol cul hwn yn golygu nad yw'r canfyddiadau efallai'n gyffredin ar gyfer pob disgybl sy'n dangos mathau eraill o ymddygiad sy'n herio, fel

gwrthod gwneud tasgau drwy'r amser, mewnoli ymddygiadau neu ymddieithrio goddefol. Dylai'r ystyriaethau ar gyfer ymchwil y dyfodol gynnwys:

- Ymchwilio effeithiolrwydd dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau ar gyfer amrediad ehangach o gyflwyniadau ymddygiadol.
- Ystyriaeth i deilwra asesiadau a chefnogi cynlluniau er mwyn deall ac ymdrin yn well â phatrymau ymddygiad llai agored ond sydd yn dal i aflonyddu.

**4. Pwyslais ar Gymorth wedi'i Dargedu**

Roedd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar ddysgwyr oedd angen cymorth unigolyddol (Haen 2/3), a ddim yn asesu effaith dulliau ysgol gyfan (Haen 1) cyffredinol. Er bod rhai ysgolion oedd yn cymryd rhan wedi sefydlu siarteri ymddygiad neu systemau cydnabod cadarnhaol yn barod, ni werthuswyd y rhain yn rhan o'r astudiaeth hon. Dylai'r ystyriaethau ar gyfer ymchwil y dyfodol gynnwys:

- Archwilio sut mae dulliau SWPBS cyffredinol Haen 1 yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd mewn ysgolion yng Nghymru.
- Archwilio sut mae cefnogaeth gyffredinol a chefnogaeth wedi'i thargedu'n rhyngweithio, ac a yw gweithredu ysgol gyfan cyson yn gwella cynaliadwyedd a chydraddoldeb canlyniadau.

**5. Diffyg Data am Ganlyniadau a Gwaith Dilynol**

Er bod cyfweliadau ansoddol wedi rhoi cyfrifon calonogol o newid mewn ymddygiad ac yn hyder yr athrawon, nid oedd yr astudiaeth yn cynnwys mesuriad o ganlyniadau ymddygiadol safonedig neu ddata dilynol i asesu a oedd y manteision yn cael eu cynnal dros amser. Yn yr un modd, nid oedd yr astudiaeth yn cynnwys teuluoedd neu bobl broffesiynol allanol, felly roedd hyn yn cyfyngu ar gwmpas yr effaith ar lefel systemau. Dylai'r ystyriaethau ar gyfer ymchwil y dyfodol gynnwys:

- Data arsylwi ymddygiadol neu fesurau canlyniad wedi'u safoni i fesur cynnydd dysgwyr.
- Gwaith dilynol ymhen 6-12 mis i asesu a yw'r cynlluniau'n cael eu cynnal ac a yw gwelliannau mewn ymddygiad yn parhau.
- Archwiliad o gyfleoedd i gynnwys teuluoedd a thimau amlasiantaeth yn y broses gynllunio a gweithredu.

**6. Gwerthusiad annibynnol**

Un o gyfyngiadau pwysig yr astudiaeth gyfredol yw bod yr arbenigwyr ymddygiad a gefnogodd weithrediad yr asesiadau ymddygiad swyddogaethol (FBA) ac a gyd-gynhyrchodd gynlluniau cymorth ymddygiad yn cymryd rhan hefyd yn y gwaith o werthuso eu heffeithiolrwydd. Er bod ymdrechion wedi'u gwneud i leihau bias gan ddefnyddio arsylwadau strwythuredig, protocolau cyfweld safonedig, a dadansoddiad ansoddol annibynnol, gallai absenoldeb asesydd cwbl annibynnol godi'r posibilrwydd y byddai bias cadarnhad neu ddisgwyliadau yn effeithio ar y canlyniadau. Byddai'n fanteisiol mewn astudiaethau yn y dyfodol i gynnwys gwerthuswr allanol i ddarparu haen ychwanegol o wrthrychedd a chryfhau dibynadwyedd y canfyddiadau.

# 7. Casgliadau ac argymhellion

## Casgliadau

Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn tynnu sylw at werth posibl cynnwys asesiad ymddygiad swyddogaethol (FBA) mewn dull haenedig, ysgol gyfan o gefnogi dysgwyr sy'n arddangos ymddygiadau heriol. Soniodd yr athrawon am well dealltwriaeth o ymddygiad disgyblion, mwy o hyder wrth ymateb iddo, a gwell canlyniadau i ddysgwyr yn dilyn cyd-gynhyrchu a gweithredu cynlluniau cefnogi ymddygiad unigolyddol. Ystyriwyd bod cyfranogaeth arbenigwyr ymddygiad yn alluogwr allweddol i ymwreiddio arferion tosturiol wedi eu hysbysu gan dystiolaeth.

Er bod y canlyniadau hyn yn addawol, mae angen rhagor o ymchwil i archwilio effaith hirdymor y dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau o fewn lleoliadau addysgol amrywiol, a pha mor hawdd ydyn nhw i'w mesur. Byddai cynnwys gwerthusiad annibynnol yn cryfhau canfyddiadau'r dyfodol hefyd.

## Argymhellion

Ar sail canfyddiadau'r astudiaeth hon ac yn unol â'r blaenoriaethau polisi cyfredol yng Nghymru, rydym yn gwneud yr argymhellion a ganlyn i gryfhau arferion, hysbysu ymchwil y dyfodol a chefnogi gweithrediad dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau yn rhan o fodel cymorth ymddygiad haenedig.

1. **Arweiniad i'r proffesiwn addysgu**
   Ar sail yr adolygiad o dystiolaeth ryngwladol, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweiniad cenedlaethol, buddsoddiad, a chymorth ymarferol i helpu ysgolion i ddatblygu ac ymwreiddio Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) fel fframwaith cyson, perthynol a chynhwysol ar draws yr haenau i gyd (cyffredinol, wedi targedu ac arbenigol).

2. **Gwerthuso a Chryfhau Cymorth (Haen 1) Cyffredinol**
   Ymchwilio gweithrediad y dull Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol drwy'r Ysgol Gyfan (SWPBS) mewn ysgolion cynradd yng Nghymru, yn cynnwys pa mor ffyddlon y cedwir ato, ei ymestyniad a'i effaith ganfyddedig. Archwilio sut mae cymorth cyffredinol yn rhyngweithio ag ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo cynaliadwyedd a newid diwylliannol drwy'r ysgol gyfan. Dylai ysgolion gael yr adnoddau i adnabod arwyddion cynnar o anhawster ymddygiadol ac ymateb gyda chymorth amserol wedi'i deilwra i'r cyd-destun. Mae'n arbennig o bwysig buddsoddi mewn lleoliadau cynradd a'r blynyddoedd cynnar, gyda phwyslais ar strategaethau rhagweithiol sy'n gostwng yr angen am wahardd.

3. **Ehangu Graddfa a Chyd-destunau'r Astudiaeth**
   Ymestyn ymchwil i ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ac unedau cyfeirio disgyblion (PRU) er mwyn asesu perthnasedd dulliau sydd wedi eu seilio ar swyddogaeth, a'u gallu i addasu, ar draws camau datblygiadol a lleoliadau addysgol amrywiol. Dylid talu sylw arbennig i bwyntiau pontio a strwythurau sefydliadol gwahanol.

4. **Ymdrin ag Amrywiaeth Ehangach o Fathau o Ymddygiad**
   Archwilio pa mor effeithiol yw asesiadau swyddogaethol a chefnogi gwaith cynllunio ar gyfer cyflwyniannau llai gweladwy o ymddygiad heriol, fel mewnoli symptomau (e.e. pryder, encilio) a datgyweddiad goddefol. Mae'n hawdd peidio sylwi ar yr ymddygiadau hyn ac eto maen nhw'n cael effaith sylweddol ar ddysgu a lles.

5. **Gwella Mesuriad drwy Ddulliau Hydredol a Meintiol**
   Dylai astudiaethau'r dyfodol gynnwys dulliau asesu wedi eu safoni, dulliau tracio ymddygiad systematig, a gwaith dilynol hydredol (e.e. 6–12 mis ar ôl yr ymyriad) i ddeall yn well beth yw effaith gyson y cymorth sydd wedi ei seilio ar swyddogaethau. Dylai ymchwil pellach archwilio'r pethau sy'n rhwystro ac yn hyrwyddo gweithrediad y SWPBS a dulliau wedi eu seilio ar swyddogaethau mewn cyd-destunau amrywiol yng Nghymru, yn cynnwys lleoliadau uwchradd ac arbenigol. Dylai'r meysydd sydd i gael eu gwerthuso gynnwys cyfraddau gwahardd, lles a chyflawniad academaidd**.**

6. **Hyrwyddo Ymgysylltiad â'r Teulu ac Asiantaethau Niferus**
   Cryfhau cyfranogaeth rhieni, gofalwyr a phobl broffesiynol allanol (e.e. seicolegwyr addysgol, gwasanaethau iechyd ac arbenigwyr ymddygiad) yn y gwaith o ddylunio, gweithredu ac adolygu cynlluniau cynorthwyo ag ymddygiad. Gall y dull cydweithredol hwn wella cysondeb, wella'r ddealltwriaeth o anghenion disgyblion ac ymwreiddio cymorth ar draws y systemau.

7. **Datblygu Gallu a Seilwaith Cenedlaethol**
   Darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff ysgol, yn cynnwys Cydlynwyr ADY ac arweinwyr uwch, er mwyn adeiladu hyder i weithredu ymatebion asesiadau swyddogaethol sydd wedi'u hysbysu gan dystiolaeth. Dylai awdurdodau lleol ystyried comisiynu neu hyfforddi arbenigwyr ymddygiad i ddarparu cyfraniad arbenigol ac i sicrhau y gweithredir yr ymatebion hyn yn ffyddlon ar draws ysgolion.

8. **Datblygu Gallu a Seilwaith Cenedlaethol**
   Dylai gweithrediad y dulliau sydd wedi eu seilio ar swyddogaethau gael eu cefnogi gan bobl broffesiynol hyfforddedig (e.e. arbenigwyr ardystiedig mewn ymddygiad), yn enwedig ar gyfer achosion cymhleth neu risg uchel. Dylai Awdurdodau Lleol ddatblygu llwybrau ar gyfer rhoi mewnbwn arbenigol a sicrhau goruchwyliaeth er mwyn cadw cyfrinachedd a ffyddlondeb i'r dulliau wrth weithredu.

# Cyfeiriadau

Agyapong, B., Obuobi-Donkor, G., Burback, L. a Wei, Y. (2022). Stress, Burnout, Anxiety and Depression among Teachers: A Scoping Review, *International Journal of Environmental Research and Public Health*, *19*, tt.1-42. Cod Gwrthrych Digidol: Stress, Burnout, Anxiety and Depression among Teachers: A Scoping Review.

Austin, J. L., Groves, E. A., Reynish, L. C. a Francis, L. L. (2015). Validating trial-based functional analyses in mainstream primary school classrooms, *Journal of Applied Behavior Analysis, 48*, tt.1–15. Cod Gwrthrych Digidol: Validating trial-based functional analyses in mainstream primary school classrooms.

Biglan, A., Flay, B. R., Embry, D. D., a Sandler, I. N. (2012). The critical role of nurturing environments for promoting human well-being. *American Psychologist, 67*(4), 257–271. Cod Gwrthrych Digidol: The Critical Role of Nurturing Environments for Promoting Human Wellbeing.

Bradshaw, C. P., Koth, C. W., Thornton, L. A. a Leaf, P. J. (2009). Altering school climate through school-wide Positive Behavioral Interventions and Supports: Findings from a group-randomized effectiveness trial, *Prevention Science*, *10*(2), tt.100-115. Cod Gwrthrych Digidol: Altering school climate through school-wide Positive Behavioral Interventions and Supports: Findings from a group-randomized effectiveness trial.

Braun, V. a Clarke, V., (2006). Using thematic analysis in psychology, *Qualitative Research in Psychology, 3*(2), tt.77-101. Cod Gwrthrych Digidol: Using thematic analysis in psychology.

Briere, D. E., Simonsen, B., Sugai, G. a Myers, D. (2015). Increasing new teachers' specific praise using a within-school consultation intervention, *Journal of Positive Behavior Interventions*, *17*(1), tt.50-60. Cod Gwrthrych Digidol: Increasing new teachers' specific praise using a within-school consultation intervention.

Burke, M. D., Davis, J. L., Lee, Y. H., Hagan-Burke, S., Kwok, O. M. a Sugai, G. (2012). Universal screening for behavioral risk in elementary schools using SWPBS expectations, *Journal of Emotional and Behavioral Disorders*, *20*(1), tt.38-54. Cod Gwrthrych Digidol: Universal screening for behavioral risk in elementary schools using SWPBS expectations.

Charmaz, K. (2014). *Constructing Grounded Theory*. Los Angeles: Sage.

Charmaz, K. (2014). *Constructing grounded theory* (2il argraffiad). Llundain: Sage.

Comisiynydd Plant Cymru. (2020). *Injustice or In Justice: Children and School Exclusion in Wales*. Caerdydd: Swyddfa'r Comisiynydd Plant.

Cogan, O., Gillard, D., Anderson, B., Hopkins, S., Hulson-Jones, A., a Hughes, C. (2025). Supporting young people at risk of school exclusion through Acceptance and Commitment Therapy and allied models. *Educational & Child Psychology, 42*(1), 94–109. Cod Gwrthrych Digidol: Supporting young people at risk of school exclusion through Acceptance and Commitment Therapy and allied models.

Curtis, R., Van Horne, J. W., Robertson, P. a Karvonen, M. (2018). Outcomes of a School-Wide Positive Behavioral Support Program, *Professional School Counselling, 13*(3), tt.159-164. Cod Gwrthrych Digidol: Outcomes of a School-Wide Positive Behavioral Support Program.

Denne, L. D., Grindle, C. F., Sapiets, S. J., Blandford-Elliott, M., Hastings, R. P., Hoerger, M., Lambert-Lee, K., Paris, A., Nicholls, G., a Hughes, J. C. (2023). Creating effective teaching and learning environments: Building a positive behavioural support (PBS) model for UK special schools. *Support for Learning, 38*(4), 183–193. Cod Gwrthrych Digidol: Creating effective teaching and learning environments: Building a positive behavioural support (PBS) model for UK special schools.

Yr Adran Addysg. (2023). *Evaluation of the Behaviour Hubs Programme: Interim Report*. (Adroddiad Ymchwil RR1461). London: Department for Education. Ar gael yn: Evaluation of the Behaviour Hubs Programme: Interim Report

Eber, L., Breen, K., Rose, J., Unizycki, R. M. a London, T. H. (2008). Wraparound: As a Tertiary Level Intervention for Students with Emotional/Behavioral Needs, *Journal of Early Intervention, 40*(6), tt.81-98. Cod Gwrthrych Digidol: Wraparound: As a Tertiary Level Intervention for Students with Emotional/Behavioral Needs.

Ervin, T., Wilson, A. N., Maynard, B. R. a Bramblett, T. (2018). Determining the effectiveness of behavior skills training and observational learning on classroom behaviors: A case study, *Social Work Research*, *42*(2), tt.106-117. Cod Gwrthrych Digidol: Determining the effectiveness of behavior skills training and observational learning on classroom behaviors: A case study.

Estrapala, S., Rila, A. a Bruhn, A. L. (2021). A Systematic Review of Tier 1 PBIS Implementation in High Schools, *Journal of Positive Behavior Interventions, 23*(4), tt.288-302. Cod Gwrthrych Digidol: A Systematic Review of Tier 1 PBIS Implementation in High Schools.

Flanagan, T.F., DeBar, R.M., Sidener, T.M., Kisamore, A. N., Reeve, K. F. a Reeve, S. A. (2020). Teacher-Implemented Trial-Based Functional Analyses with Students with Emotional/Behavioral Disorders, *Journal of Developmental and Physical Disabilities, 32*, tt.427–453. Cod Gwrthrych Digidol: Teacher-Implemented Trial-Based Functional Analyses with Students with Emotional/Behavioral Disorders.

Gage, N. A., Grasley-Boy, N., Lonbardo, M. a Anderson, L. (2020). The Effect of School-Wide Positive Behavior Interventions and Supports on Disciplinary Exclusions: A Conceptual Replication, *Behavioral Disorders, 46(*1), tt.42-53. Cod Gwrthrych Digidol: The

Effect of School-Wide Positive Behavior Interventions and Supports on Disciplinary Exclusions: A Conceptual Replication.

George, H. P. a Kincaid, D. K. (2008). Building District-Level Capacity for Positive Behavior Support, *Journal of Positive Behavior Interventions*, *10*(1), tt.20–32. Cod Gwrthrych Digidol: Building District-Level Capacity for Positive Behavior Support.

George, H. P., Kincaid, D. K. a Pollard-Sage J. (2008). *Primary-tier interventions and supports*, in Sailor W., Dunlap G., Sugai G., Horner R. H. (Goln.), Handbook of positive behavior support. Efrog Newydd: Springer, tt. 357-394. Ar gael yn: Handbook of positive behavior support.

Hanley, G. P. (2012). Functional assessment of problem behavior: dispelling myths, overcoming implementation obstacles, and developing new lore, *Behavior Analysis in Practice, 5*(1), tt.54-72. Cod Gwrthrych Digidol: Functional assessment of problem behavior: dispelling myths, overcoming implementation obstacles, and developing new lore.

Hawken, L. S., Adolphson, S. L., MacLeod, K. S. a Schumann, J. (2008). *Secondary-tier interventions and supports*, yn Sailor W., Dunlap G., Sugai G., Horner R. H. (Gol.), Handbook of positive behavior support. Efrog Newydd: Springer, tt. 357-394. Cod Gwrthrych Digidol: Secondary-tier interventions and supports.

Horner, R. H. a Sugai, G. (2015). School-wide PBIS: An Example of Applied Behavior Analysis Implemented at a Scale of Social Importance, *Behavior analysis in practice*, *8*(1), tt.80–85. Cod Gwrthrych Digidol: School-wide PBIS: An Example of Applied Behavior Analysis Implemented at a Scale of Social Importance.

Horner, R. H., Sugai, G. a Anderson, C. M. (2010). Examining the evidence base for School-wide Positive Behavior Support, *Focus on Exceptional Children*, *42*(8), tt.1-14. Ar gael ar: Examining the evidence base for School-wide Positive Behavior Support.

Hulson-Jones, A., Blandford-Elliot, M., Williams, M., Hoerger, M., Watkins, R., May, R., Groves, E., Noone, S., & Hughes, J. C. (2025). *Ymddygiadau sy'n herio ac yn tarfu ar eraill mewn ysgolion ar draws Cymru: Strategaethau a chamau lliniaru effeithiol* (Rhif adroddiad GSR 41/2025). Llywodraeth Cymru / Welsh Government. Ar gael yn: *Ymddygiadau sy'n herio ac yn tarfu ar eraill mewn ysgolion ar draws Cymru: Strategaethau a chamau lliniaru effeithiol*

Ingram, K., Lewis-Palmer, T. a Sugai, G. (2005). Function-based intervention planning: Comparing the effectiveness of functional behaviour assessment function-based and non-function-based intervention plans, *Journal of Positive Behavior Interventions, 7*(4), tt.224-236. Cod Gwrthrych Digidol: Function-based intervention planning: Comparing the effectiveness of asesiad ymddygiad swyddogaethol function-based and non-function-based intervention plans.

Jackson Brown, F., Gillard, D., a Brown, M. (2014). Supporting special school placements at risk of breakdown: behavioural and financial outcomes. *Tizard Learning Disability Review*,

19(2), 90–99. Cod Gwrthrych Digidol: Supporting special school placements at risk of breakdown: behavioural and financial outcomes.

Kelm, J. L., McIntosh, K. a Cooley, S. (2014). Effects of Implementing School-Wide Positive Behavioural Interventions and Supports on Problem Behaviour and Academic Achievement in a Canadian Elementary School, *Canadian Journal of School Psychology, 29*(3), tt.195-212. Cod Gwrthrych Digidol: Effects of Implementing School-Wide Positive Behavioural Interventions and Supports on Problem Behaviour and Academic Achievement in a Canadian Elementary School.

Lee, A. a Gage, N. (2020). Updating and expanding systematic reviews and meta-analyses on the effects of school-wide positive behavior interventions and supports, *Psychology in the schools, 57*(4), tt.1-22. Cod Gwrthrych Digidol: Updating and expanding systematic reviews and meta-analyses on the effects of school-wide positive behavior interventions and supports.

Luke, N. a O'Higgins, A. (2018). Is the Care System to Blame for the Poor Educational Outcomes of Children Looked After? Evidence from a Systematic Review and National Database Analysis, *Children Australia, 43*(2), tt.135-151. Cod Gwrthrych Digidol: Is the Care System to Blames for the Poor Educational Outcomes of Children Looked After? Evidence from a Systematic Review and National Database Analysis.

Llywodraeth Cymru (2020). *Adolygiad o'r Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019 i 2022 mewn ymateb i Covid-19* Ar gael yn: Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 mewn Ymateb i Covid-19.

Llywodraeth Cymru. (2025). *Adroddiad Monitro Data Presenoldeb Ysgol: Tymor y Gwanwyn 2024/25*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: *Adroddiad Monitro Data Presenoldeb Ysgol: Tymor y Gwanwyn 2024/25.*

Llywodraeth Cymru. (2016). *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: Canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael: *Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion: Canllawiau ar gyfer ysgolion ac awdurdodau lleol.*

Llywodraeth Cymru (2015). *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr Hanfodion*. Ar gael: Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Yr Hanfodion.

Llywodraeth Cymru. (2021). *Fframwaith ar Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Fframwaith ar Sefydlu dull ysgol-gyfan o ymdrin ag iechyd a lles meddyliol.

Llywodraeth Cymru (2023). *Gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022.* Ar gael yn: Gwaharddiadau o Ysgolion a Gynhelir: Medi 2021 i Awst 2022.

Llywodraeth Cymru (2019). *Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)* Ar gael yn: Rhaglen trawsnewid y system anghenion dysgu ychwanegol (ADY)/

Llywodraeth Cymru (2025b). *Uwchgynhadledd ymddygiad: arolwg o ddarparwyr addysg a staff cymorth*. Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/uwchgynhadledd-ymddygiad-arolwg-o-ddarparwyr-addysg-staff-cymorth

McIntosh, K. a Goodman, S. (2016). *Integrated multi-tiered systems of support: Blending RTI and PBIS*. Guilford Press. Ar gael yn: Integrated multi-tiered systems of support: Blending RTI and PBIS.

Melvin, G. A., Heyne, D., Gray, K. M., Hastings, R. P., Totsika, V., Tonge, B. J., a Freeman, M. M. (2019). The Kids and Teens at School (KiTeS) Framework: An inclusive bioecological systems approach to understanding school absenteeism and school attendance problems. *Frontiers in Education, 4*, 61. Cod Gwrthrych Digidol: The Kids and Teens at School (KiTeS) Framework: An inclusive bioecological systems approach to understanding school absenteeism and school attendance problems.

Metzler, C. W., Biglan, A., Rusby, J. C. a Sprague, J. R. (2001). Evaluation of a comprehensive behavior management program to improve school-wide positive behavior support, *Education and Treatment of Children, 24*(4), tt.448-479. Ar gael yn: Evaluation of a comprehensive behavior management program to improve school-wide positive behavior support.

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol (2023). *The State of Education 2023*. Ar gael yn: The State of Education 2023.

National Institute for Health and Care Excellence (NICE). (2015). *Challenging behaviour and learning disabilities: Prevention and interventions for people with learning disabilities whose behaviour challenges* (Canllaw NICE [NG11]). Ar gael yn: Challenging behaviour and learning disabilities: Prevention and interventions for people with learning disabilities whose behaviour challenges

Nesselrode, R., Falcomata, T.S., Hills, L. a Erhard, P. (2022). Functional Analysis in Public School Settings: A Systematic Review of the Literature, *Behavior Analysis in Practice*, *15*, tt. 958-970. Ar gael yn: Functional Analysis in Public School Settings: A Systematic Review of the Literature.

Netzel, D. M. a Eber, L. (2003). Shifting from reactive to proactive discipline in an urban school district: A change of focus through PBIS implementation, *Journal of Positive Behavior Interventions, 5*(2), tt.71-79. Cod Gwrthrych Digidol: Shifting from reactive to proactive discipline in an urban school district: A change of focus through PBIS implementation.

Newcomer, L. L. a Lewis, T. J. (2004). Functional Behavioral Assessment: An Investigation of Assessment Reliability and Effectiveness of Function-Based Interventions, *Journal of Emotional and Behavioral Disorders, 12*(3), tt.168–181. Cod Gwrthrych Digidol: Functional Behavioral Assessment: An Investigation of Assessment Reliability and Effectiveness of Function-Based Interventions.

O'Neill, R. E., Horner, R. H., Albin, R. W., Sprague, J. R., Storey, K., a Newton, J. S. (1997). *Functional assessment and program development for problem behavior: A practical handbook* (2il argraffiad.). Brooks/Cole. Ar gael yn: Functional assessment and program development for problem behavior: A practical handbook

Paget, A., Parker, C., Heron, J., Logan, S., Henley, W., Emond, A. a Ford, T. (2018). Which children and young people are excluded from school? Findings from a large British birth cohort study, the Avon Longitudinal Study of Parents and Children (ALSPAC), *Child: care, health and development*, *44*(2), tt.285-296. Cod Gwrthrych Digidol: Which children and young people are excluded from school? Findings from a large British birth cohort study, the Avon Longitudinal Study of Parents and Children (ALSPAC).

Reinke, W. M., Herman, K. C. a Sprick, R. (2011). *Motivational interviewing for effective classroom management: The classroom check-up.* The Guilford Press. Ar gael yn: Motivational interviewing for effective classroom management: The classroom check-up.

Reinke, W. M., Herman, K. C. a Stormont, M. (2013). Classroom-Level Positive Behavior Supports in Schools Implementing SW-PBIS: Identifying Areas for Enhancement, *Journal of Positive Behavior Interventions*, *15*(1), tt.39–50. Cod Gwrthrych Digidol: Classroom-Level Positive Behavior Supports in Schools Implementing SW-PBIS: Identifying Areas for Enhancement.

Reitzel, J., Summers, J., Lorv, B., Szatmari, P., Zwaigenbaum, L., Georgiades, S. a Duku, E. (2013). Pilot randomized controlled trial of a Functional Behavior Skills Training program for young children with autism spectrum disorder who have significant early learning skill impairments and their families, *Research in Autism Spectrum Disorders*, *7*(11), tt.1418-1432. Cod Gwrthrych Digidol: Pilot randomized controlled trial of a Functional Behavior Skills Training program for young children with autism spectrum disorder who have significant early learning skill impairments and their families.

Santiago, J.L., Hanley, G.P., Moore, K. a Jin, C. S. (2016). The Generality of Interview-Informed Functional Analyses: Systematic Replications in School and Home, *Journal of Autism and Developmental Disorders, 46,* tt.797–811. Ar gael yn: The Generality of Interview-Informed Functional Analyses: Systematic Replications in School and Home.

Scott, T.M., Gagnon, J. C. a Nelson, C. M. (2008). School-Wide Systems of Positive Behavior Support: A Framework for Reducing School Crime and Violence, *Journal of Behavior Analysis of Offender and Victim Treatment and Prevention, 1*(3), tt.259-272. Cod Gwrthrych Digidol: School-Wide Systems of Positive Behavior Support: A Framework for Reducing School Crime and Violence.

Scott, T. M., Anderson, C., Mancil, R. a Alter, P. (2009). *Function-based supports for individual students in school settings*, in Handbook of positive behavior support. Boston, MA: Springer US, tt.421-441. Ar gael yn: Function-based supports for individual students in school settings, in Handbook of positive behavior support.

Simonsen, B., Fairbanks, S., Briesch, A., Myers, D. a Sugai, G. (2008). Evidence-based practices in classroom management: Considerations for research to practice, *Education and Treatment of Children*, *31*(3), tt.351-380. Cod Gwrthrych Digidol: Evidence-based practices in classroom management: Considerations for research to practice

Simonsen, B., Sugai, G. and Negron, M. (2008). Schoolwide Positive Behavior Supports: Primary Systems and Practices, *Journal of Early Intervention, 40*(6), tt.32-40. Cod Gwrthrych Digidol: Schoolwide Positive Behavior Supports: Primary Systems and Practices.

Sørlie, M., Idsoe, T., Ogden, T., Olseth, A. R. a Torbjørn, T. (2018). Behavioral Trajectories During Middle Childhood: Differential Effects of the School-Wide Positive Behavior Support Model, *Prevention Science, 19*, tt.1055-1065. Cod Gwrthrych Digidol: Behavioral Trajectories During Middle Childhood: Differential Effects of the School-Wide Positive Behavior Support Model.

Sugai, G., Sprague, J. R., Horner, R. H. a Walker, H. M. (2000). Preventing school violence: The use of office discipline referrals to assess and monitor school-wide discipline interventions, *Journal of Emotional and Behavioral Disorders*, *8*(2), tt.94–101. Cod Gwrthrych Digidol: Preventing school violence: The use of office discipline referrals to assess and monitor school-wide discipline interventions.

Sugai, G. a Horner, R. H. (2009). *Defining and describing schoolwide positive behavior support*, yn W. Sailor, G. Dunlap, G. Sugai a R. Horner (Eds.), Handbook of positive behavior support. Efrog Newydd, NY: Springer US, tt. 307–326. Cod Gwrthrych Digidol: Defining and describing schoolwide positive behavior support.

Sutherland, K. S., Wehby, J. H. a Copeland, S. R. (2000). Effect of varying rates of behavior-specific praise on the on-task behavior of students with EBD, *Journal of Emotional and Behavioral Disorders*, *8*(1), tt.2-8. Cod Gwrthrych Digidol: Effect of varying rates of behavior-specific praise on the on-task behavior of students with EBD.

Turnball, A., Edmonson, H., Griggs, P., Wickham, D., Sailor, W., Freeman, R., Guess, D., Lassen, S., McCart, A., Park, J., Riffel, L., Turnball, R. a Warren, J. (2002). A Blueprint for Schoolwide Positive Behavior Support: Implementation of Three Components, *Exceptional Children, 68*(3), tt.377-402. Cod Gwrthrych Digidol: A Blueprint for Schoolwide Positive Behavior Support: Implementation of Three Components.

Welsh, R. O. a Little, S. (2018). The School Discipline Dilemma: A Comprehensive Review of Disparities and Alternative Approaches, *Review of Educational Research, 88*(5), tt.752-794. Cod Gwrthrych Digidol: The School Discipline Dilemma: A Comprehensive Review of Disparities and Alternative Approaches.

# Atodiad A.

Holiadur yr Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol

**Cyfweliad AS penagored**

Enw'r Cleient: Dyddiad Geni ac Oedran y Cleient:
Dyddiad y cyfweliad: Rhyw y Cleient:
Perthynas yr ymatebwr i'r cleient:
Ymatebwr: Cyfwelydd:

1. Disgrifiwch ei alluoedd/galluoedd o ran iaith.

2. Disgrifiwch ei sgiliau chwarae a'r teganau neu weithgareddau hamdden y mae'n eu hoffi orau.

3. Beth arall sy'n well ganddo/ganddi?

4. Beth yw'r ymddygiadau problemus? Sut maen nhw'n edrych?

5. Beth yw'r un ymddygiad problemus sy'n achosi'r pryder mwyaf?

6. Beth yw'r 3 ymddygiad problemus sy'n achosi'r pryder mwyaf? A oes ymddygiadau eraill sy'n achosi pryder?

7. Disgrifiwch amrywiaeth dwyseddau'r ymddygiadau problemus ac i ba raddau y gallai ef/hi neu bobl eraill gael eu brifo neu eu hanafu gan yr ymddygiad problemus.

8. A yw'r gwahanol fathau o ymddygiadau problemus yn tueddu i ddigwydd mewn clystyrau neu mewn un ffrwydrad annisgwyl a/neu oedd unrhyw fath o ymddygiad problemus yn digwydd fel arfer cyn math arall o ymddygiad problemus (e.e. gweiddi cyn taro)?

9. O dan ba amodau neu ym mha sefyllfaoedd y mae'r ymddygiadau problemus fwyaf tebygol o ddigwydd?

10. A yw’r ymddygiadau problemus yn digwydd yn ddibynadwy yn ystod unrhyw weithgareddau arbennig?

11. Beth sydd fel petai’n sbarduno’r ymddygiadau problemus?

12. A yw’r ymddygiad problemus yn digwydd pan fyddwch yn gwneud rhywbeth yn wahanol i’r arfer neu’n torri ar draws gweithgareddau? Os felly, disgrifiwch.

13. A yw’r ymddygiad problemus yn digwydd pan mae’n ymddangos nad yw ef/hi yn mynd i gael ei ffordd ei hun? Os felly, disgrifiwch y pethau y mae’r plentyn yn ceisio ei reoli yn aml iawn.

14. Sut ydych chi ac eraill yn ymateb neu’n adweithio i’r ymddygiad problemus?

15. Beth ydych chi ac eraill yn ei wneud i’w dawelu/thawelu unwaith y mae ef/hi wedi cychwyn yr ymddygiadau problemus?

16. Beth ydych chi ac eraill yn ei wneud i dynnu ei sylw oddi wrth gymryd rhan yn yr ymddygiad problemus?

17. Beth mae ef/hi yn ceisio ei gyfathrebu yn eich barn chi, gyda’r ymddygiad problemus, os oes unrhyw beth?

18. Ydych hi’n meddwl bod yr ymddygiad problemus hwn yn fath o hunan-ysgogiad? Os felly, beth sy’n rhoi’r argraff honno i chi?

19. Pam ydych chi’n meddwl ei fod ef/ei bod hi’n cymryd rhan yn yr ymddygiad problemus?

20. Pa ymyriadau, os oes rhai o gwbl, ydych chi wedi eu defnyddio gydag ef/hi o’r blaen?

# Atodiad B

Enghraifft o adroddiad asesiad ymddygiad swyddogaethol a chynllun cynorthwyo gydag ymddygiad.

**Adroddiad Asesiad Ymddygiad Swyddogaethol**

*Cynhaliwyd sesiwn ddarganfod gwybodaeth yn ysgol plentyn X ar 04.05.2022 gydag asesiadau ymddygiad swyddogaethol a chyfweliadau ag aelodau allweddol o staff. Ar sail hyn, nodwyd ymddygiadau targed ar gyfer cynllun ymddygiad swyddogaethol.*

1. *Dwylo a geiriau caredig tuag at gyfoedion ac oedolion (cadw ei ddwylo a'i draed i ffwrdd oddi wrth eraill, dim rhegi)*
2. *Sgiliau cymdeithasol / sgiliau chwarae gyda chyfoedion*
3. *Y gallu i weithio / chwarae / cwblhau tasgau'n annibynnol*

*Ni welwyd unrhyw ymddygiad ymosodgar nac iaith ddrwg yn uniongyrchol yn ystod yr ymweliad hwn. Ond, adroddir bod yr ymddygiad hwn yn digwydd amlaf pan ddisgwylir i blentyn X wneud tasgau annibynnol. Pan oedd plentyn X i fod i weithio'n annibynnol mewn amrywiol ardaloedd (gydag amrywiaeth o weithgareddau priodol a diddorol) gwelwyd bod plentyn X, bob dau funud ar gyfartaleddd, yn ceisio rhyngweithio gyda'r athrawes neu'r cynorthwyydd addysgu, ac yn ddiweddarach gyda mi. Fodd bynnag, eisteddodd plentyn X heb gael unrhyw sylw gan eraill am 18 munud yn ystod y cynulliad boreol pan nad oedd yr athrawes a'r cynorthwyydd addysgu yn bresennol, ac nad oedd unrhyw sylw ar gael gan athrawon unigol. Ceisiodd Plentyn X gael sylw gan yr athrawes yn y dosbarth mewn ffordd briodol gan gyfeirio at y gweithgareddau yr oedd yn eu gwneud. Pan alwyd ar blentyn X i wneud gwaith 1:1 gyda'r athrawes, eisteddodd wrth y bwrdd a chymryd rhan yn y gweithgaredd mathemateg. Arhosodd Plentyn X ar y dasg am 2.5 munud cyn ceisio ailgyfeirio sylw'r athrawes i ffwrdd oddi wrth y gweithgaredd. Pan ailgyfeiriwyd plentyn X yn ôl at y gweithgaredd, cydymffurfiodd plentyn X ond ni allai ganolbwyntio'n llwyr ar y gweithgaredd heb bromptio trwm gan yr athrawes. Ar un pwynt, aeth Plentyn X i olchi ei ddwylo gan ymgysylltu â'r athrawes drwy gydol y broses. Pan drodd yr athrawes ei sylw at ddysgwr arall, dychwelodd plentyn X yn gyflym at y bwrdd. Pan oedd y gwaith yn gyflawn gofynnodd blentyn X a gai wneud mwy o waith gyda'r athrawes.*

*Disgrifiodd athrawes plentyn X ymddygiad ymosodgar plentyn X fel rhywbeth sy'n digwydd pan nad yw'n cael ei oruchwylio ac mae'r digwyddiadau fel petaent yn digwydd yn ddigymell ac nid yw'n ymddangos fel petai'n targedu dysgwr penodol am reswm penodol. Unwaith y bydd plentyn X wedi cymryd rhan mewn ymddygiad ymosodgar mae'n cael ei gymryd i un ochr i gael trafodaeth 1:1 am yr hyn sydd wedi digwydd.*

*Mewn grŵp darllen ac ysgrifennu cymerodd plentyn X ran yn y gêm oedd yn cael ei chwarae gan aros ei dro ymysg 5 o ddysgwyr eraill. Ond, drwy gydol yr amser hwn roedd yn*

*cael sylw yn gyson gan y cynorthwyydd addysgu. Yn ystod yr ail gêm, ceisiodd plentyn X ymddwyn mewn ffordd oedd yn anghysylltiedig â'r dasg, megis ceisio ysgwyd y bwrdd a chwythu ar y twr i'w daro i lawr. Derbyniodd sylw gan y cynorthwyydd addysgu a'i atgoffodd bod hyn yn angharedig a'i fod yn ceisio ennill pwynt Dojo. Ar dro olaf plentyn X, trawodd y twr i lawr yn ddamweiniol gan golli'r gêm. Torrodd ei galon. Cafodd ei gysuro gan y cynorthwyydd addysgu a thynnwyd ei sylw at rywbeth arall. Y ddamcaniaeth ynglŷn â hyn yw bod plentyn XXXX yn gallu rheoli ei ymddygiad mae'n debyg am fod hyn yn ymddangos yn ymateb nodweddiadol gan blentyn 6/7 oed wrth golli gêm. Damcaniaethir bod y senarios a'r ymddygiadau a ddisgrifir uchod yn rhai a achosir er mwyn derbyn sylw. Dydyn nhw ddim yn digwydd, er enghraifft, yn y cynulliad boreol pan nad oes sylw ar gael gan athro cyfarwydd, ac nid oes adroddiad ohonyn nhw'n digwydd, ac ni welwyd nhw'n digwydd, pan mae plentyn X yn derbyn cyfradd uchel o sylw da gan staff.*

## Cynllun Ymddygiad Swyddogaethol *Plentyn X*

**Tactegau Rhagweithiol**

Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad

Gellir defnyddio Hyfforddiant mewn Sgiliau Ymddygiad i addysgu sgiliau newydd, yn cynnwys sgiliau rheoli'r emosiynau, sgiliau chwarae a chymdeithasol a sgiliau cyfathrebu. Mae'n cynnwys cyflwyno'r sgil a darparu'r rhesymeg dros ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n briodol i allu'r dysgwr, defnyddio'r sgil mewn chwarae rôl a darparu adborth penodol am ddefnyddio'r sgil. Mae'r rhain yn elfennau pwysig am eu bod yn darparu'r cyfle i ymarfer sgil newydd ac, yn enwedig gyda'r math o sgiliau yr ydym yn eu haddysgu i *blentyn X*, mae'n bwysig rhoi'r cyfle iddo ymarfer pan mae'n ddigynnwrf ac yn teimlo'n ddiogel yn ei amgylchedd. Mae adborth penodol yn bwysig fel nad ydym yn dweud wrtho ei fod yn gwneud yn dda a dyna'i gyd. Mae'n bwysig dweud wrtho beth yn benodol a wnaeth yn dda a beth y gallwn ei ymarfer. Er enghraifft "Fe wnest ti'n dda iawn yn y fan honno oherwydd fe gofiaist ti ofyn i gael gadael y bwrdd er y gallwn ddweud ar dy wyneb dy fod wedi ypsetio. Dyna sut rydym yn cadw'n ddiogel, gadael i dy athro wybod lle'r wyt ti". Mae hyn hefyd yn golygu bod *plentyn X* yn fodlon ailadrodd y rheolau i'w helpu i ddysgu a chofio. Unwaith y mae'r mathau hyn o sesiynau wedi eu darparu, neu y mae pethau wedi eu trin mewn sesiynau ELSA, mae'n bwysig bod y sgiliau hyn yn cael eu cefnogi a'u gwneud yn bethau cyffredin yn amgylchedd naturiol y dosbarth/ysgol. Dylai'r staff i gyd fod yn ymwybodol o'r strategaethau a'r sgiliau sydd wedi cael eu dysgu i *blentyn X.* Mae hyn yn cynnwys yr athrawon ar y buarth, a'r rhai sy'n gwneud sesiynau llythrennedd neu rifedd gydag ef. Mae'r sgiliau hyn yn cynnwys sgiliau rheoleiddio emosiynau a hefyd sgiliau chwarae neu gyfathrebu. Yn y ffordd yma, gellir atgoffa *plentyn X* am ddefnyddio'r sgiliau hyn cyn, yn ystod ac ar ôl sefyllfaoedd gan unrhyw aelod o'r staff sy'n bresennol. Mae'n bwysig ei atgoffa drwy gydol y diwrnod am unrhyw sgiliau a addysgir mewn sesiynau, fel ei fod yn gallu ymarfer a dod yn rhugl yn y sgiliau hynny drwy gydol y diwrnod ysgol. Mae'r rhain yn sgiliau newydd, yn union fel darllen neu gyfrif, felly ni fydd yn gallu eu gwneud nhw yn syth a bydd angen cymorth ac anogaeth. Sgiliau pwysig i'w cynnwys yw anwybyddu pobl eraill (naill ai eu

“hymddygiad gwirion” o’ch amgylch chi, neu eu hymddygiad sydd wedi’i anelu atoch chi) a gellir gwneud hyn mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft cerdded i ffwrdd, dweud wrth oedolyn neu anwybyddu person os ydyn nhw’n bod yn angharedig (beth bynnag sy’n briodol), rheoli emosiynau (aros yn ddigynnwrf neu ymdawelu ar ôl cael eich ypsetio neu eich cyffroi, ac ati), gofyn am gymorth, aros (yn yr oedran yma, mae’n syniad da i siarad am bethau y gallwn eu gwneud wrth aros i’n helpu i basio’r amser, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw aros heb rywbeth i dynnu eu sylw), gwneud eich gorau (mae’n iawn os yw pethau’n anodd ac os ydych chi’n cael pethau’n anghywir, yn y gwaith ac o ran sgiliau cymdeithasol). Bydd sgiliau eraill yr ydych yn gwybod eu bod nhw’n bwysig i *blentyn X* yn eich ysgol, a bydd rhai y gwyddoch ei fod e’n gallu eu gwneud nhw’n barod felly nid oes angen eu targedu. Fel y damcaniaethwyd, mae ymosodedd neu iaith ddrwg *plentyn X* yn digwydd am ei fod wedi ypsetio neu am ei fod yn ceisio rhyngweithio neu chwarae gydag eraill ac mae’n ansicr sut i wneud hynny’n briodol. Mae dysgu sgiliau newydd yn gallu lleihau sawl gwaith y mae’r digwyddiadau hyn yn digwydd.

Goddef Tasgau Anniybynnol

Gall *plentyn X* sicrhau sylw’r staff mewn ffordd briodol a dylid annog hynny. Ond nid yw *plentyn X* yn gallu gweithio neu chwarae’n anibynnol am gyfnod sylweddol o amser. Mae’r nod terfynol, sef bod *plentyn X* yn gallu gwneud tasg annibynnol am 5 munud, wedi’i gytuno gyda’i athro dosbarth. Bydd nod cychwynnol o 2 funud wedi’i osod. Unwaith y gall *plentyn X* weithio’n ddibynadwy neu chwarae’n annibynnol mewn tasg ddiddorol, bydd yr amser yn cael ei gynyddu o 30 eiliad. Bydd hyn yn ailadrodd nes bydd *plentyn X* yn gallu cymryd rhan am 5 munud yn ddibynadwy. Bryd hynny, dylid tynnu’r gefnogaeth yn raddol (er enghraifft, amserydd/bod yn agos at yr athro) nes bydd *plentyn X* yn gallu cwblhau neu gymryd rhan mewn tasg yn annibynnol heb gymorth ychwanegol.

Gosodwch amserydd ar gyfer 2 funud a’i ddangos i *blentyn X,* esboniwch iddo fod angen iddo chwarae/gweithio ar ei ben ei hun heb oedolyn nes bydd yr amserydd yn gorffen. Pan fydd yr amserydd yn gorffen, nid oes raid iddo fod wedi cwblhau’r dasg. Pan fydd yr amserydd yn gorffen rhowch lawer o sylw da i *blentyn X* ynghylch y ffaith ei fod wedi gweithio’n annibynnol. Os bydd *plentyn X* yn ymgysylltu â chi yn ystod y ddau funud, ymatebwch a’i ailgyfeirio yn ôl at ei dasg gyda sylw o safon is nag yr oeddech wedi ei roi ar gyfer dau funud llwyddiannus. Rhowch wybod i’r oedolion eraill yn yr ystafell eich bod yn cynnal sesiwn fel eu bod nhw’n gallu gwneud yr un peth. Defnyddiwch y daflen ddata isod i gofnodi ei gynnydd. Os bydd yn cwblhau’r ddau funud, rhowch arwydd plws yn y bocs. Os nad yw’n cwblhau’r ddau funud, rhowch arwydd minws yn y bocs. Ar ddiwedd y diwrnod/wythnos gallwch weld ei gynnydd a gweld a oes angen gwneud unrhyw newidiadau. Defnyddiwch amrywiaeth o weithgareddau ac amrywiaeth o amgylcheddau (eistedd wrth fwrdd fel grŵp, eistedd wrth fwrdd yn ystod yr amser 1:1, chwarae mewn ardal gerllaw’r bwrdd rydych yn eistedd wrtho). Cynhaliwyd hyn gynifer o weithiau yn ystod y dydd ag y mae’n naturiol neu’n ymarferol ei wneud. Rai diwrnodau, ni fydd cyfle i gynnal y sesiynau ac ar ddiwrnodau eraill, bydd llawer o gyfle.

## Atodiad C

**Amserlen y Cyfweliadau: Cyfweliadau Lled-strwythuredig gydag Athrawon**

**Prosiect Cymorth Cadarnhaol gydag Ymddygiad mewn Ysgolion Prif Ffrwd**

**Diben** Lluniwyd yr amserlen gyfweliadau hon i gasglu safbwyntiau athrawon sy'n cymryd rhan yn dilyn gweithrediad cynlluniau cymorth gydag ymddygiad wedi eu seilio ar swyddogaethau yn eu hystafelloedd dosbarth. Gwnaethpwyd y cyfweliadau tua phedair wythnos ar ôl cwblhau'r asesiadau a'r cynlluniau a luniwyd ar y cyd.

Y nod oedd deall profiadau athrawon, canfyddiadau o effaith, a sylwadau am gynaliadwyedd, yn ogystal â nodi unrhyw rwystrau rhag gweithredu a welir ac unrhyw nodweddion hwyluso ar gyfer gweithredu. Gofynnwyd yr un cwestiynau craidd i'r athrawon i gyd. Defnyddiwyd promptiau dilynol lle'r oedd yn ddefnyddiol egluro neu fanylu. Osgôdd yr ymchwilwyr gwestiynau arweiniol ac nid oeddent yn ceisio dylanwadu ar ymatebion y cyfranogwyr.

**Cwestiynau Cyfweliad**

Profiad Cyffredinol

- Allwch chi ddisgrifio eich profiad cyffredinol o gymryd rhan yn y prosiect hwn?

Newid yn Ymddygiad y Dysgwr

- Ers gweithredu'r cynllun cymorth, ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn ymddygiad y dysgwr? Hwb: Allwch chi roi esiamplau o beth sydd wedi gwella neu beth sy'n parhau'n heriol?

Effaith ar Arferion y Staff

- Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn eich arferion addysgu eich hun neu yn y ffordd y mae eich cydweithwyr yn ymdrin ag ymddygiad? Hwb: Er enghraifft, a gafwyd unrhyw newidiadau yn y ffordd y mae ymddygiad yn cael ei drafod neu ei reoli?

Cynaliadwyedd

- Ydych chi'n meddwl y bydd y cynllun cefnogi a'r strategaethau a gyflwynwyd yn ystod y prosiect yn parhau i gael eu defnyddio yn eich ystafell ddosbarth neu ysgol? Hwb: Pa ffactorau fydd yn cefnogi neu'n herio hyn yn eich barn chi?

Newidiadau i Ddull yr Ystafell Ddosbarth neu'r Ysgol

- Ydych chi wedi gwneud unrhyw newidiadau penodol i amgylchedd eich ystafell ddosbarth, eich arferion rheolaidd, neu ddull ymddygiad ysgol ehangach o ganlyniad i'r prosiect hwn? Hwb: Er enghraifft, a wnaethpwyd unrhyw newidiadau i bolisi, arferion rheolaidd neu ddisgwyliadau?

Canfyddiadau Dros Amser

- A yw eich meddyliau neu deimladau am y prosiect wedi newid ers i'r cynllun ymddygiad gael ei gyflwyno'n gyntaf? Hwb: Os felly, ym mha ffyrdd?

Hwyluswyr

- Pa ffactorau oedd o gymorth i chi i weithredu'r cynllun cymorth ymddygiad yn llwyddiannus? Hwb: Gallai hyn gynnwys hyfforddiant, cymorth gan staff, ymateb disgyblion, neu ddiwylliant ysgol.

Rhwystrau

- Wnaethoch chi wynebu unrhyw rwystrau neu anawsterau wrth geisio rhoi'r cynllun ymddygiad ar waith? Hwb: Os felly, beth a'ch cynorthwyodd chi i oresgyn y rhain (os oedd unrhyw beth)?

Myfyrdodau ac Argymhellion

- Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i athro arall sy'n cychwyn proses cefnogi ymddygiad debyg? Hwb: Beth fyddech chi'n ei newid neu gadw yr un fath ar sail eich profiad chi?

Sylwadau Ychwanegol

- A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei ychwanegu am eich profiad neu am effaith y prosiect?